eiriolaeth
Y Rhaglen Edau Euraidd
Galluogi barn, dymuniadau a theimladau

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar

# Pecyn cymorth i gefnogi'r broses o gymhwyso'r fframwaith ar gyfer Comisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i Oedolion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



# Tudalen gynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad ac Amcanion y Pecyn Cymorth | **2** |
| Sut i ddefnyddio'r Pecyn Cymorth | **3** |
| 1 Mwy am eiriolaeth | **4** |
| 2 Y gofynion a'r gweithdrefnau deddfwriaethol | **8** |
| 3 Yr amgylchiadau pan fydd yn briodol defnyddio eiriolaeth broffesiynol annibynnol | **11** |
| 4 Sut i sicrhau goruchwyliaeth lywodraethu | **15** |
| 5 Y Cylch Comisiynu | **21** |
| 6 Sut i amcangyfrif galw | **23** |
| 7 Opsiynau ar gyfer modelau comisiynu | **25** |
| 8 Pennu'r gwasanaeth sydd ei angen | **28** |
| 9 Arferion caffael | **31** |
| 10 Cael darparwyr digonol a medrus | **33** |
| 11 Mabwysiadu dull cyd-gynhyrchiol systematig | **36** |
| 12 Monitro ac adolygu angen, darpariaeth a pherfformiad | **39** |
| Atodiad A | **43** |
| Atodiad B | **49** |
| Atodiad C | **74** |
| Atodiad D | **95** |
| Atodiad E | **102** |
| Atodiad F | **103** |
| Atodiad G | **104** |
| Atodiad H | **105** |

# *Pecyn cymorth i gefnogi'r broses o gymhwyso'r fframwaith ar gyfer Comisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i Oedolion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*

# *Cyflwyniad*

**Dylid darllen y pecyn cymorth hwn ar y cyd â'r Fframwaith ar gyfer Comisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i Oedolion yng Nghymru o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fe'i datblygwyd ar y cyd, ac mae'n defnyddio adnoddau o amrywiaeth eang o ffynonellau.**

**Gellir cyfeirio ato pan fydd angen cymorth ychwanegol arnoch.**

## Nodau'r pecyn cymorth

Mae'r pecyn cymorth wedi'i gynllunio i'ch helpu i ddeall a defnyddio'r fframwaith comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol drwy:

- Rhoi cyngor ar weithredu agweddau penodol ar y fframwaith.
- Eich cyfeirio at ragor o wybodaeth am eiriolaeth broffesiynol annibynnol a mathau eraill o eiriolaeth.
- Darparu cyngor ar gymhwyso'r cylch comisiynu.
- Darparu cymorth ar gyfer adolygu eich dull o gomisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

Mae'n bwysig nodi y dylai defnyddio'r pecyn cymorth eich helpu i gomisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn fwy effeithiol. Yn y pen draw, fodd bynnag, chi sy'n atebol am y penderfyniadau a wneir gennych a'r rhain fydd yn pennu canlyniadau eich dull gweithredu.

**Yn benodol, mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i ddylunio i'ch helpu i ddeall y canlynol yn well:**

**1** Mwy am eiriolaeth

**2** Y gofynion a'r gweithdrefnau deddfwriaethol

**3** Yr amgylchiadau pan fydd yn briodol defnyddio eiriolaeth broffesiynol annibynnol

**4** Sut i sicrhau goruchwyliaeth lywodraethu

**5** Y Cylch Comisiynu

**6** Sut i amcangyfrif y galw

**7** Opsiynau ar gyfer modelau comisiynu

**8** Pennu'r gwasanaeth sydd ei angen

**9** Arferion caffael

**10** Cael darparwyr digonol a medrus

**11** Mabwysiadu dull cyd-gynhyrchiol systematig

**12** Monitro ac adolygu angen, darpariaeth a pherfformiad

## Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn

Ar gyfer pob un o'r uchod fe welwch:

- Croesgyfeiriad at y tasgau perthnasol yn y Matrics Tasgau Allweddol sydd wedi'i gynnwys y fframwaith;
- Cyflwyniad i'r pwnc a/neu gyngor ar sut i fynd ati yng nghyd-destun comisiynu eiriolaeth annibynnol a phroffesiynol;
- Lle bo'n briodol, darlun o'r mater yn ymarferol;
- Cyfeiriad at adnoddau ychwanegol a all gynorthwyo eich lefel o ddealltwriaeth.

# 1 Mwy am eiriolaeth

## Tasgau allweddol

- Meddu ar weledigaeth a strategaeth ar gyfer eiriolaeth yn gyffredinol-gan ddangos ymrwymiad i eiriolaeth fel egwyddor i gefnogi gofal a chymorth effeithiol.
- Rhannu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn yw eiriolaeth a rôl benodol eiriolaeth broffesiynol annibynnol.
- Sicrhau bod yr eiriolaeth yn cynnig ffordd glir a hawdd ei defnyddio, yn ymatebol ac yn cael ei darparu'n gyflym pan fo angen.
- Cyfeirio unigolion at wasanaethau eiriolaeth.

## Cyflwyniad/ Cyngor

Mae eiriolaeth mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a elwir o hyn ymlaen yn "y Ddeddf", yn ceisio sicrhau bod pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt neu y gallai fod angen gofal a chymorth arnynt, yn gallu lleisio eu barn ar faterion sy'n bwysig iddynt. Ei nod yw amddiffyn a diogelu hawliau a chefnogi pobl i gael eu barn a'u dymuniadau wedi'u hystyried go iawn pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am eu bywydau.

Mae eiriolaeth yn hyrwyddo cydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol, cynhwysiant cymdeithasol a hawliau dynol. Ei nod yw sicrhau bod pethau'n digwydd yn y ffyrdd mwyaf uniongyrchol a grymusol[1]. Mae'n cydnabod bod hunan-eiriolaeth yn golygu bod pobl, o bosibl yn cael eu hannog a'u cefnogi, yn siarad ac yn gweithredu ar eu rhan eu hunain.


Dangosir y sbectrwm eiriolaeth yn y ddogfen fframwaith.

Dylid ystyried yr angen a'r hawl i eiriolaeth o'r pwynt cyswllt cyntaf (Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth) hyd at asesiad a thu hwnt.

## Eglurhad

Mae'r fframwaith yn egluro bod sbectrwm o eiriolaeth ac mae hyn wedi'i ail-adrodd yma er hwylustod:

[1] SCIE – comisiynu eiriolaeth annibynnol




**Ffigur 1: Gwasanaethau Eiriolaeth**

Ffynhonnell: Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (GTAP))

**Hunan-eiriolaeth**
Pan fydd unigolion yn cynrychioli ac yn siarad drostyn nhw eu hunain.

**Eiriolaeth anffurfiol**
Pan fydd teulu, ffrindiau neu gymdogion yn cynorthwyo unigolyn i sicrhau bod ei ddymuniadau a'i deimladau yn cael eu clywed, a allai gynnwys siarad ar ei ran.

**Eiriolaeth ar y cyd**
Yn cynnwys grwpiau o unigolion â phrofiadau cyffredin, sy'n cael eu grymuso i leisio barn a dylanwadu ar newid a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol.

**Eiriolaeth cymheiriaid**
Un unigolyn yn gweithredu fel eiriolwr ar ran rhywun arall sy'n rhannu profiad neu gefndir cyffredin.

**Eiriolaeth dinasyddion**
Yn cynnwys partneriaeth un-i-un hirdymor rhwng eiriolwr sy'n ddinesydd gwirfoddol hyfforddedig neu a gynorthwyir ac unigolyn.

**Eiriolaeth gwirfoddol annibynnol**
Yn cynnwys eiriolwr annibynnol a di-dâl sy'n gweithio ar sail tymor byr neu ar sail pwnc gydag un neu fwy o unigolion.

**Eiriolaeth ffurfiol**
Gall gyfeirio at rôl eiriolaeth staff ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a lleoliadau eraill lle mae'n ofynnol i weithwyr proffesiynol, fel rhan o'u rôl, ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn a helpu i sicrhau eu bod yn cael sylw priodol.

**Eiriolaeth broffesiynol annibynnol**
Yn cynnwys eiriolwr proffesiynol, hyfforddedig sy'n gweithio mewn partneriaeth un i un gydag unigolyn i sicrhau bod ei farn yn cael ei chyfleu'n gywir a bod ei hawliau'n cael eu cynnal. Gallai hyn fod ar gyfer un mater neu faterion niferus.

Mae eiriolaeth broffesiynol annibynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn benodol ar gyfer cefnogi unigolyn mewn perthynas â'i anghenion gofal a/neu gymorth. Cyfeirir at eiriolwyr sy'n ymgymryd â'r math hwn o eiriolaeth fel eiriolwr proffesiynol annibynnol (IPA)." (Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth) para. 32)

## Adnoddau eraill

- Mae Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol.

  Cod Ymarfer Eiriolaeth Rhan 10
  http://bit.ly/Part10Code

- Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru fodiwl hyfforddi ar eiriolaeth sy'n ymwneud mwy ag eiriolaeth a hefyd eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Adnoddau hwb dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru - Eiriolaeth

  http://bit.ly/SCWadvocacy

- Eiriolaeth: Modelau ac Effeithiolrwydd - Insight 20, mae Stewart a MacIntyre yn nodi modelau eiriolaeth, yn archwilio'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sy'n cyfyngu ar effeithiolrwydd eiriolaeth.

  http://bit.ly/IRISSmodels

- Mae SCIE nodi mathau o eiriolaeth Comisiynu Eiriolaeth Annibynnol

  http://bit.ly/SCIEtypes

- Mae'r Prosiect Eiriolaeth Edau Euraidd wedi cynhyrchu adnoddau i gefnogi ymwybyddiaeth o eiriolaeth ar gyfer y cyhoedd ac i weithwyr proffesiynol

  **Deunyddiau ymwybyddiaeth GTAP**

  http://bit.ly/GTAPaware

  **Cylchlythyrau GTAP**

  http://bit.ly/GTAPnews

# 2 Y gofynion a'r gweithdrefnau deddfwriaethol

## Tasgau allweddol

Ystyriwch rôl eiriolaeth broffesiynol annibynnol:

- Ar y cyswllt cyntaf.
- Ar adeg yr asesiad.
- Ar adegau o newid a phontio.
- Pan y gallai unigolion ddod o dan y trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid oherwydd yr anghenion cynyddol am ofal a chymorth.

## Cyflwyniad/ Cyngor

Mae deddfwriaeth berthnasol yn cael ei chynnwys o fewn y Fframwaith. Mae Rhan 10 o'r Cod Ymarfer (Eiriolaeth) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd "asesu, fel rhan o'u hasesiad o anghenion y boblogaeth, yr ystod o wasanaethau eiriolaeth yn eu hardal a sicrhau a hyrwyddo eu hargaeledd fel rhan o'u portffolio o wasanaethau ataliol".

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol:

a) sicrhau bod mynediad at wasanaethau eiriolaeth a chymorth ar gael i alluogi unigolion i ymgysylltu a chymryd rhan pan fo awdurdodau lleol yn arfer dyletswyddau statudol mewn perthynas â hwy a,

b) trefnu bod **Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol** ar gael i hwyluso'r broses o gynnwys unigolion mewn rhai amgylchiadau.

Ni ddylid darllen Rhan 10 ar ei phen ei hun. Mae "y Ddeddf" yn effeithio ar gomisiynu eiriolaeth o dan sawl rhan. Mae'r rhain yn cael sylw llawn yn y Cod Ymarfer[2]. Y rhannau perthnasol o'r "Ddeddf" yw:

- Rhan 2 Swyddogaethau cyffredinol
- Rhan 3 Asesu angen
- Rhan 4 Diwallu anghenion
- Rhan 5 Codi tâl ac asesiad ariannol
- Rhan 7 Diogelu
- Rhan 9 Cydweithredu a phartneriaeth
- Rhan 10 Cwynion, sylwadau ac eiriolaeth


O dan y ddeddfwriaeth, rhaid i awdurdodau lleol drefnu i ddarparu Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol (IPA) pan na all unigolyn ond goresgyn y rhwystrau i gymryd rhan lawn yn y broses o asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygu a diogelu prosesau gyda chymorth gan unigolyn priodol, ond nid oes unrhyw unigolyn priodol ar gael.

## Eglurhad

Mae'r modiwlau hyfforddi gan Gofal Cymdeithasol Cymru[3] yn darparu gwybodaeth am ddeddfwriaeth ac eiriolaeth gan gynnwys eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Gweler y ffigwr ar dudalen 9.

[2]Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) https://gweddill.gov.wales/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?skip=1&lang=cy
[3]Deunyddiau Hyfforddi Hyb Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol Cymru https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/eiriolaeth

# Swyddogaethau sy'n berthnasol i Eiriolaeth




Ffigur 2: Swyddogaethau eraill yn "y Ddeddf" sy'n berthnasol i eiriolaeth

## Adnoddau eraill

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhan 10
  http://bit.ly/Part10legislation
- Yr Hanfodion Hanfodion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol
  http://bit.ly/SSWBAessentials
- Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth)
  http://bit.ly/Part10Code
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
  http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
  http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted
- Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
  https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/42/contents
- Cyfreithiau sy'n effeithio ar wasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru
  http://bit.ly/MHWaleslaw

# 3 Yr amgylchiadau pan fydd yn briodol defnyddio eiriolaeth broffesiynol annibynnol

## Tasgau allweddol

- Rhannu dealltwriaeth gyffredin o’r hyn yw eiriolaeth a rôl benodol eiriolaeth broffesiynol annibynnol.
- Rhannu cytundeb cyffredin ynglŷn â phryd y mae eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn briodol a bob amser yn ystyried ei gymhwyso ynghyd â mathau eraill o eiriolaeth.
- Cynllunio strategaeth glir, ysgrifenedig a chanlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer darparu eiriolaeth.
- Hyfforddi staff i adnabod pryd mae angen cymorth eiriolaeth (gan gynnwys IAA).
- Sicrhau bod yr eiriolaeth yn cynnig ffordd glir a hawdd ei defnyddio, yn ymatebol ac yn cael ei darparu’n gyflym pan fo angen.

## Cyflwyniad/ Cyngor

Mae deall pryd i ddefnyddio eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn hanfodol wrth sefydlu proses gomisiynu effeithiol. Mae’r ddeddfwriaeth yn “y Ddeddf” a Chod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) yn nodi’r gofynion.

## Eglurhad

Efallai y bydd ar unigolyn angen mwy nag un math o eiriolaeth ar un adeg neu yn ystod ei oes. Mae’r darlun yn Ffigur 4 yn darparu canllaw symlach ar gyfer pennu’r angen am eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Wrth ystyried a oes angen eiriolaeth ar unrhyw un o’i ffurfiau neu eiriolaeth broffesiynol annibynnol, rhaid canolbwyntio ar yr anghenion unigol.

**eiriolaeth**
Y Rhaglen Edau Euraidd
Galluogi barn, dymuniadau a theimladau

# *Y broses gwneud penderfyniadau wrth bennu angen am eiriolaeth broffesiynol annibynnol i Oedolion*

*o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar

**Yr unigolyn a'i amgylchiadau**

A yw'r unigolyn yn oedolyn sydd ag, neu yn ymddangos fel bod ganddo, anghenion gofal a chymorth

**Neu**

A yw'r unigolyn yn ofalwr sydd ag, neu yn ymddangos fel bod ganddo, anghenion gofal a chymorth

**Ac,** a yw'r unigolyn yn cael

- asesiad
- cynllunio gofal a chymorth
- adolygiad
- ymholiad neu adolygiad diogelwch?

**Ac** a oes gan yr unigolyn unrhyw rwystrau rhag:

- cyfranogi yn llawn
- cael eraill i wrando ar ei lais
- i benderfynu a diogelu ei ganlyniadau llesiant?

**NAC YDI** → Nid oes unrhyw ofyniad i awdurdodai lleol na byrddau iechyd i drefnu darpariaeth EBA o dan y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant, ond dylid ystyried ffurfiau eraill o gymorth ac eiriolaeth.

**YDI** → A yw'n bosib goresgyn y rhwystrau hyn drwy addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

- **YDI** → Gwnewch addasiadau rhesymol.
- **NAC YDI** → A yw'r unigolyn yn gymwys ar gyfer Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA)?
  - **YDI** → Cyfeiriwch at Wasanaeth IMCA.
  - **NAC YDI** → Mewn partneriaeth gyda'r unigolyn, penderfynwch pa ffurf o eiriolaeth yw'r mwyaf priodol, gan gynnwys unigolyn addas, eiriolaeth ffurfiol etc. A oes yna unigolyn addas neu eiriolaeth briodol ar gael?
    - **YDI** → Cadarnhewch y trefniadau gyda'r unigolyn addas, neu cyfeiriwch yr unigolyn at wasanaethau eiriolaeth addas. Ystyriwch a oes angen EBA yn ogystal.
    - **NAC YDI** → Cyfeiriwch at wasanaeth EBA.

**Ffigur 4: Y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer pennu'r angen am eiriolaeth broffesiynol annibynnol**

## Adnoddau eraill

Mae dwy astudiaeth achos wedi'u cynnwys sy'n rhoi enghreifftiau o ba bryd y defnyddiwyd eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain, ac nid ydynt yn honni eu bod yn cynrychioli pob achos lle y dylid ystyried/defnyddio eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

### *Astudiaeth Achos Mr R*

Mae Mr R yn ŵr gweddw 75 mlwydd oed sy'n byw ar ei ben ei hun. Mae ganddo symudedd cyfyngedig ac amrywiaeth o faterion iechyd, sy'n cael eu rheoli â meddyginiaeth. Mae ganddo rywfaint o gysylltiad â merch sy'n byw 5 milltir i ffwrdd, ond mae ganddynt berthynas anodd. Mae Mr R yn teimlo ei bod "ar ôl ei arian" ac yn "ymyrryd". Mae hi'n mynegi pryderon am ei berthynas gyda ffrindiau a chymdogion, gan fod Mr R yn hysbys i fod yn hael gyda nhw gydag arian ac anrhegion. Maen nhw'n galw heibio ac unwaith neu ddwywaith yr wythnos, mae Mr R yn eu diddanu, yn cyflenwi alcohol a sigarennau.

Cysylltodd ei ferch â'r gwasanaethau cymdeithasol a chafwyd ymweliad, a arweiniodd at asesiad. Mae gan Mr R gapasiti, a chyda chymorth cymdogion, mae'n rheoli'r siopa a'r tripiau at y meddyg teulu a'r ysbyty yn ôl yr angen. Mae'n dweud ei fod yn hapus i roi help ariannol i'w ffrindiau a'i gymdogion, maen nhw'n gwmni da ac yn ei helpu gyda phethau o gwmpas y tŷ sydd angen eu gwneud. Roedd yn bendant ei fod yn gwybod yn union beth mae'n ei wneud, ac nid oedd yr ymweliad yn nodi unrhyw faterion diogelu. Fodd bynnag, nododd yr asesiad rai anghenion a rhoddwyd cynllun gofal ar waith. Mae gan Mr R weithwyr gofal i'w helpu ddwywaith y dydd.

Parhaodd merch Mr R i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill ac roedd yn dal yn anhapus am yr hyn oedd yn digwydd. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi mynd drwyddynt, ac mae'r sefyllfa'n parhau er nad yw'r ferch o bosibl yn hoff o'r trefniant, fod gan Mr R gapasiti o hyd a'i fod yn mwynhau'r hyn y mae'n ei ystyried fel helpu ei gyfeillion allan gydag arian ac anrhegion. Gwnaeth ei ferch gŵyn gan nodi ei bod yn credu bod y gweithiwr cymdeithasol ac yna'r gweithwyr gofal yn cydgynllwynio i dwyllo Mr R. Arweiniodd hyn at ymchwiliad. Roedd Mr R yn siomedig iawn nad oedd neb, yn ôl pob golwg, yn ystyried ei farn a bod ei ddewisiadau o ran ffordd o fyw yn cael eu beirniadu. Y canlyniad oedd bod gwasanaethau cymdeithasol, ar ôl trafod a chael cytundeb Mr R, yn nodi'r angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol i helpu Mr R i gael ei lais ac i sicrhau ei fod yn gallu cael cymorth mewn ffordd a oedd yn ei helpu i gyflawni'r hyn oedd yn bwysig iddo - parhau i gysylltu â ffrindiau a chymdogion a chymorth gan ei ofalwyr.

**Sylw:** Wrth adolygu'r achos, teimlwyd y gallai ceisio Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol yn gynharach i gefnogi Mr R fod wedi atal y sefyllfa rhag gwaethygu.

### *Astudiaeth Achos Mrs V*

Mae Mrs V yn 90 mlwydd oed a'i hunig deulu agos yw ei mab. Cyfeiriwyd Mrs V at y Prosiect Eiriolaeth oherwydd datgeliadau a wnaed gan ei chymydog ynglŷn â sut yr oedd ei mab yn ei thrin. Bu gweithiwr, ynghyd â chymydog Mrs V, a oedd yn gweithredu fel eiriolwr anffurfiol, yn ymweld â Mrs V. Dywedodd Mrs V ei bod yn iawn a'i bod yn gofidio am yr awgrym bod ei mab yn gwneud unrhyw beth o'i le. Roedd yn gwbl ddibynnol ar ei mab mewn perthynas â nifer o anghenion, gan gynnwys ei helpu gyda gofal personol, siopa bwyd a thynnu arian parod o'r banc oherwydd ei phroblemau iechyd corfforol. Dywedodd fod gan ei mab broblemau ei hun, ei fod yn ddi-waith ac yn cael trafferth gydag iselder, ac roedd yn ei chael yn anodd ei helpu. Nid oedd yn deall pa gymorth yr oedd ganddi'r hawl i'w gael, ac nid oedd neb i'w chynghori am hyn.

Yn dilyn yr ymweliad hwn, mynegodd y cymydog ei anesmwythder wrth barhau mewn rôl eiriolaeth anffurfiol ac roedd Mrs V yn ddig gyda'r cymydog. Roedd y gweithiwr cymdeithasol, gan ystyried yr hyn a ddywedodd Mrs V, yn dal i fod â rhai pryderon am y sefyllfa ac nid oedd yn teimlo'n hyderus yng ngallu Mrs V i fynegi ei barn a'i hanghenion ei hun yn ddigonol er nad oedd ganddi broblemau amlwg o ran gallu. Roedd yn amlwg bod y pryderon a godwyd am ei mab a'r hyn y gallai hyn ei olygu yn peri gofid iddi.

Roedd angen gofal a chymorth ar ei mab hefyd ac nid oedd yn gallu gweithredu fel eiriolwr, ac o ystyried y pryderon, er yn ddi-sail, teimlai'r gweithiwr cymdeithasol ei bod yn bwysig bod eiriolwr proffesiynol annibynnol yn cael ei ystyried. Nid oedd Mrs V yn deall y system, nid oedd ganddi unrhyw un a allai eirioli ar ei rhan, ac ar yr adeg honno roedd tensiwn rhwng yr hyn yr oedd Mrs V yn ei ddymuno a'r hyn yr oedd ei mab yn gallu ei gynnig iddi. Cytunodd Mrs V ar IPA, a oedd yn gallu egluro'r system iddi hi a rhoddwyd cynllun gofal ar waith ar ei chyfer a chynigiwyd asesiad gofalwyr i'w mab.

**Sylw:** Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos perthnasedd gwahanol fathau o eiriolaeth ar wahanol gamau o fynd i'r afael ag anghenion person. Dangosodd y gweithiwr cymdeithasol wybodaeth am hyn a gweithredodd yn sensitif wrth sicrhau bod Mrs V yn gwrando a'i bod yn gallu rheoli'r hyn oedd yn digwydd iddi.

# 4 Sut i sicrhau goruchwyliaeth lywodraethu

## Tasgau Allweddol

- Sicrhau'r cydweithrediad mwyaf posibl rhwng yr holl wasanaethau eiriolaeth a gomisiynir er mwyn cyflawni'r ystod o ddyletswyddau sydd eu hangen.
- Cynllunio strategaeth glir, ysgrifenedig a chanlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer darparu eiriolaeth.
- Datblygu achosion busnes ar gyfer comisiynu eiriolaeth.
- Meddu ar strategaethau a nodi person uwch a enwir i arwain ar gynllunio eiriolaeth.
- Cynnal deialog gyda rhanddeiliaid allweddol a darparwyr posibl.
- Gweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill (iechyd, tai, budd-daliadau) ac ystyried trefniadau comisiynu ar y cyd er mwyn lleihau 'silos' eiriolaeth.
- Comisiynau gwasanaethau ar y cyd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol lle ystyrir hynny'n briodol. Cefnogi hyn gydag adnoddau a rennir.
- Defnyddio monitro perfformiad i sicrhau ei fod:
  - Yn seiliedig ar ganlyniadau.
  - Yn cynnwys gwybodaeth am weithgarwch a chyllid.
  - Yn gymesur.
  - Yn meddu ar system syml ar gyfer casglu data.
  - Yn cynnwys gwaelodlinau.
- Cynnal hunanasesiadau er mwyn deall perfformiad.
- Defnyddio gwerthusiad annibynnol ar gyfer dysgu ychwanegol.
- Archwilio ymchwil ac arfer da er mwyn sicrhau'r gwerth a'r canlyniadau gorau.
- Os oes angen, dadgomisiynu gwasanaethau sy'n methu bodloni canlyniadau a darparu gwerth am arian, a lle mae ymdrechion i'w gwella drwy weithio mewn partneriaeth wedi methu â gwella perfformiad.
- Ceisio gwella trefniadau comisiynu yn barhau, gan adolygu dysgu i lywio'r holl weithgareddau comisiynu. Rhannu dysgu am arferion cyfredol ac ystyried cydweithio yn y dyfodol.
- Monitro cynnydd ac ystyried defnyddio matrics aeddfedrwydd.

## Cyngor/Gwybodaeth

Fel gyda phob dyletswydd statudol, dylid lleoli effeithiolrwydd comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol o fewn fframwaith llywodraethu cryf a chlir. Dylai awdurdodau lleol gymhwyso eu trefniadau llywodraethu arferol gyda chyfranogiad priodol deiliaid portffolio ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, cabinetau cynghorau a phwyllgorau trosolwg a chraffu.

Mae eiriolaeth broffesiynol annibynnol hefyd yn fater y mae'n rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ei ystyried. Mae'r canllawiau statudol ar rôl a chyfrifoldebau'r byrddau yn cyfeirio at eu dyletswydd i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cydweithio'n effeithiol i wella canlyniadau i bobl yn y rhanbarth a bod gwasanaethau ac adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon i alluogi hyn. Ymhlith y dyletswyddau penodol hyn mae gofyniad i sicrhau ymateb i'r gofynion eiriolaeth ar gyfer pob unigolyn. Mae eiriolaeth mewn sefyllfa gadarn, felly, o fewn trefniadau llywodraethu cydweithredol rhanbarthol iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r fframwaith yn cyfeirio at yr angen o leiaf i ystyried manteision mabwysiadu dull rhanbarthol o gomisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Lle penderfynir y dylid dilyn y dull hwn, yr RPB yw'r fforwm amlwg ar gyfer goruchwylio'r tasgau allweddol.

Efallai nad oedd eiriolaeth wedi cael sylw sylweddol ar agendâu Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol yn y gorffennol. Mae'r pwyllgorau hyn yn awr yn cael y cyfle i graffu ar y broses o ddatblygu trefniadau eiriolaeth ac eiriolaeth broffesiynol annibynnol ehangach. Lluniwyd cyfres o gwestiynau a all fod o gymorth i bwyllgorau craffu yn y gwaith hwn ac fe'u cynhwysir yn ddiweddarach o dan y pennawd Adnoddau Eraill.

## Eglurhad

Llifau Llywodraethu a Gwybodaeth

## Llifau Llywodraethu a Gwybodaeth

### Ar lefel Ranbarthol

- Ystyried buddion dull rhanbarthol
- Sicrhau bod pob partner yn cydweithredu'n effeithiol

### Ar lefel Awdurdod Lleol

- Adnabod yr angen am eiriolaeth broffesiynol annibynnol
- Contract ar gyfer gwasanaethau
- Monitro perfformiad
- Casglu data ar bobl sy'n defnyddio eiriolaeth broffesiynol annibynnol i lywio cynllunio ar gyfer y dyfodol
- Hunan asesiad

### Tasgau Allweddol

- Datblygu strategaeth ar gyfer eiriolaeth gan gynnwys eiriolaeth broffesiynol annibynnol
- Rhoi fframwaith llywodraethu ar waith
- Datblygu achos busnes
- Defnyddio ymchwil ac arfer da a nodwyd i lywio gwasanaethau a gomisiynir
- Ystyried gwerthusiad annibynnol
- Ystyried comisiynu ar y cyd
- Osgoi seilos

Mae ble mae tasgau'n eistedd yn dibynnu a yw'n ddull rhanbarthol neu ddull ALl

### Gwasanaethau a gomisiynir

- Darparwyr yn anfon gwybodaeth i'r ALl/Rhanbarth ynglŷn â gwasanaethau a chanlyniadau
- All/Rhanbarth i anfon gwybodaeth ynglŷn ag unigolion i ddarparwyr
- Rhannu gwybodaeth, adnabod heriau ac arfer da

### Partneriaid allweddol

- Iechyd, tai, budd-daliadau

**Ffigur 5**

## Adnoddau Eraill

Er mwyn cefnogi'r dull cyffredinol o hyrwyddo ymwybyddiaeth a dyletswyddau eiriolaeth mewn perthynas ag eiriolaeth, dyma restr o gwestiynau a ddatblygwyd gan y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd a allai fod o gymorth i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu wrth iddynt graffu ar wasanaethau eiriolaeth a chomisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Mae'r rhain yn ddewisol ac efallai y byddwch am ddefnyddio rhai ond nid eraill.

**1. Sut mae'r awdurdod lleol yn dadansoddi anghenion ac asedau eiriolaeth y presennol a'r dyfodol ar gyfer ei boblogaeth?**

a. Pa wybodaeth mae'r awdurdod lleol yn ei chasglu a'i dadansoddi er mwyn deall y galw am eiriolaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol o dan "y Ddeddf"?

b. A oes proses systematig o gynnwys pobl leol sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio, y gwasanaethau hyn, wrth gasglu a dadansoddi'r wybodaeth hon?

c. A yw'r awdurdod lleol yn gwybod pa adnoddau sydd ar gael ar gyfer comisiynu gwasanaethau eiriolaeth a phroffil y defnyddwyr gwasanaeth sydd fwyaf tebygol o fod angen cymorth? A all roi eu hymrwymiadau ariannol yn y dyfodol ar y prosiect yn hyderus?

d. A yw'r awdurdod lleol yn dadansoddi gweithgarwch a pherfformiad y ddarpariaeth eiriolaeth bresennol yn ei ardal?

**2. Sut mae'r awdurdod lleol yn cynllunio'r ddarpariaeth o wasanaethau eiriolaeth ar gyfer ei boblogaeth?**

a. A yw'r awdurdod lleol wedi datblygu strategaeth ysgrifenedig glir a chanlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer darparu eiriolaeth yn unol â'i ddyletswyddau o dan "y Ddeddf" sy'n dangos ei fwriadau comisiynu yn y dyfodol?

b. A yw'r awdurdod lleol yn hwyluso deialog barhaus gyda rhanddeiliaid allweddol a darparwyr posibl er mwyn creu consensws ar oblygiadau ei gynlluniau yn yr ardal leol?

c. A oes gan yr awdurdod lleol ddull cydgynhyrchiol o gomisiynu sy'n galluogi pobl leol i gyfrannu at gynllunio gwasanaethau a sicrhau'r rheolaeth fwyaf posibl dros wasanaethau unwaith y byddant wedi'u sefydlu?

**3. Sut mae'r awdurdod lleol yn gweithredu ei gynllun?**

a. A oes gan yr awdurdod lleol ddarlun clir o'r amrywiaeth o ddarparwyr eiriolaeth posibl yn ei ardal: eu cryfderau, eu gwendidau a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol?

b. A yw'r awdurdod lleol yn dylanwadu ar y farchnad leol ar gyfer eiriolaeth i ddatblygu gwasanaethau yn unol ag anghenion lleol, yn hytrach na dyfarnu contractau yn hanesyddol?

c. A yw'r awdurdod lleol wedi datblygu manylebau gwasanaeth a chontractau sy'n hyblyg, yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n glir ynghylch gofynion ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau?

**4. Sut mae'r awdurdod lleol yn adolygu pa mor dda mae ei gynlluniau'n gweithio?**

a. A yw'r awdurdod lleol yn dwyn ynghyd ddata perthnasol ar weithgarwch, cyllid a chanlyniadau ei wasanaethau a gomisiynir er mwyn barnu a ydynt yn darparu gwerth am arian?

b. A oes gan yr awdurdod lleol brosesau monitro contractau ar waith sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol a chydweithredol â darparwyr er mwyn gwella perfformiad?

**5. A yw sbectrwm llawn y gwasanaethau eiriolaeth ar gael ac o fewn cyrraedd y boblogaeth?**

a. A yw'r awdurdod lleol yn trefnu eiriolaeth broffesiynol annibynnol i bawb sy'n gallu goresgyn y rhwystr(au) i gymryd rhan yn llawn yn y prosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygu a diogelu gyda chymorth gan unigolyn, ond nad oes unigolyn priodol ar gael ar ei gyfer?

b. A yw'r awdurdod lleol yn sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth ffurfiol ac anffurfiol ehangach ar gael yn ogystal ag eiriolaeth broffesiynol annibynnol?

c. A yw pobl leol yn deall beth mae eiriolaeth yn ei olygu? A ydynt yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth? Pa mor hawdd yw hi iddynt wneud hynny?

**6. A yw'r sector darparwyr eiriolaeth yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol?**

a. Pa ddarparwyr eiriolaeth sydd ar gael? Oes yna fylchau?

b. A oes digon o ddarparwyr newydd yn ymuno â'r sector? Beth ellir ei wneud i gefnogi lefel iach o fynediad i'r sector?

c. Faint o arian sy'n mynd i mewn i'r sector, o ble mae'n dod, beth yw'r enillion cymdeithasol ar y buddsoddiad, a yw'n gynaliadwy?

d. A yw rhai modelau trefniadaethol yn fwy effeithiol nag eraill, ac ym mha demograffiau? A oes digon o ddarparwyr i sicrhau bod dewis ar gael i'r cleient? Beth yw anghenion sefydliadau o ran meithrin gallu? Pa mor gynaliadwy ydyn nhw? Beth yw'r risg y gallai sefydliad fethu, beth yw'r canlyniadau a beth yw'r arwyddion rhybudd?

e. Sut mae gweithlu'r sector yn cael ei ffurfio? A yw'n gynaliadwy? Beth yw ei anghenion o ran hyfforddi, datblygu ac adeiladu capasiti? Beth yw goblygiadau Deddf Rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol (Cymru) 2016? Beth all yr awdurdod lleol ei wneud i sicrhau gweithlu cynaliadwy?

f. Beth yw'r amodau sy'n gwneud sefydliadau bach yn analluog i gynnig am gontractau? Pa gymorth caffael sydd ar gael iddynt?

g. Pa gyfraniad y mae'r sector yn ei wneud i iechyd a lles y boblogaeth ac unigolion yn y rhanbarth? Pa wahaniaeth y mae'n ei wneud i effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol?

h. Ymadael â'r sector - faint o'r broses ymadael â'r sector sydd wedi'i gynllunio a'i reoli'n llwyddiannus, gyda chanlyniadau i'r defnyddwyr gwasanaeth cyn lleied â phosibl, a faint sydd ddim? Beth all y RPB ei wneud i helpu sefydliadau i gynllunio strategaethau ymadael?

**7. Beth yw cyfraniad eiriolaeth at werth cymdeithasol yn yr ardal leol?**

a. Sut mae dylunio gwasanaethau/safonau ansawdd/canlyniadau penodol naill ai'n galluogi neu'n rhwystro gwerth cymdeithasol, a sut y gellid eu gwella? A yw'r comisiynwyr yn deall y gwerth cymdeithasol a ddarperir gan eiriolaeth? Beth yw eu hanghenion datblygu?

b. Pa fath o enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad allai comisiynwyr eu cyfrannu at gontractau?

**8. Sut mae'r awdurdod lleol yn cynnwys dinasyddion yn y broses o ddadansoddi, cynllunio, gweithredu ac adolygu'r ddarpariaeth eiriolaeth ar gyfer ei boblogaeth?**

**9. A yw'r awdurdod lleol, ymarferwyr a phobl yn cyd-gynhyrchu gwasanaethau eiriolaeth?**

a. A yw'r awdurdod lleol ac ymarferwyr yn cydnabod pobl fel asedau ac fel rhai sydd â chyfraniad cadarnhaol i'w wneud i ddyluniad a gweithrediad gwasanaethau?

b. Ydyn nhw'n cefnogi ac yn grymuso pobl i gymryd rhan yng nghynllun a gweithrediad gwasanaethau?

c. A ydynt yn grymuso pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu lles eu hunain, a chyfrannu ato?

d. A yw ymarferwyr yn gweithio mewn partneriaeth â phobl i sicrhau canlyniadau llesiant ar lefel unigol a gwasanaeth?

e. A ydynt yn cynnwys pobl wrth gynllunio canlyniadau ar gyfer gwasanaethau?

**10. Sut mae'r ALl yn ystyried cyfraniad eiriolaeth i'w ddyletswyddau statudol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016?**

# 5 Y Cylch Comisiynu

Cynhwysir y rhestr o dasgau allweddol sydd eu hangen ar gyfer comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol effeithiol yn y ddogfen fframwaith. Er bod llawer o fodelau comisiynu a phrynu ar gael, maent oll yn torri i lawr i bedwar maes allweddol a defnyddir y dull gweithredu hwn o fewn y fframwaith a'r pecyn cymorth[4].

| | |
|---|---|
| **Dadansoddi** | Deall gwerthoedd a diben yr asiantaethau dan sylw, yr angen mae'n rhaid iddyn nhw roi sylw iddynt a'r amgylchedd maen nhw'n gweithredu ynddo |
| **Cynllunio** | Nodi'r bylchau rhwng yr hyn sydd ei angen a'r hyn sydd ar gael a phenderfynu sut y bydd y bylchau hyn yn cael sylw |
| **Cyflawni** | Sicrhau gwasanaethau a sicrhau eu bod nhw'n cael eu cyflawni fel y cynlluniwyd |
| **Adolygu** | Monitro effaith y gwasanaeth a sicrhau bod unrhyw weithgareddau comisiynu yn y dyfodol yn ystyried canfyddiadau'r adolygiad |

Mae'r Matrics Aeddfedrwydd yn atodiad [B] yn nodi elfennau arfer da wrth gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth;

- Casglu a dadansoddi gwybodaeth i ddeall y galw am eiriolaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol o dan "y Ddeddf"
- Cael proses systematig o gynnwys pobl leol sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio, y gwasanaethau hyn, wrth gasglu a dadansoddi'r wybodaeth hon
- Gwybod pa adnoddau sydd ganddynt ar gyfer comisiynu gwasanaethau eiriolaeth a phroffil y defnyddwyr gwasanaeth sy'n fwyaf tebygol o fod angen cymorth
- Rhagweld ymrwymiadau ariannol yn y dyfodol yn hyderus, a dadansoddi gweithgarwch a pherfformiad y ddarpariaeth eiriolaeth bresennol yn eu hardaloedd

[4] Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) – Beth yw Comisiynu? http://bit.ly/SCIEcommissioning

## Adnoddau erial

Mae amrywiaeth o becynnau cymorth generig ar gael a chyfres o gyngor ar gael gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol[5] gan gynnwys "Arwain Comisiynu Integredig a Chydweithredol Canllaw Arfer, Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol".

Mae'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) wedi cynhyrchu ystod o adnoddau i gefnogi comisiynu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archwilio Comisiynu Eiriolaeth o dan Ddeddf Gofal 2014
  **http://bit.ly/SCIEcommissioning**
- SCIE - arfer da mewn comisiynu
  **http://bit.ly/SCIEadvocacycomm**
- Asesiad Cenedlaethol Comisiynu Sgiliau a Galluogrwydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru
  **http://bit.ly/CommSkillsCapacity**

[5]CLlLC - Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru http://bit.ly/NCBWales

# 6 Sut i amcangyfrif galw

## Tasgau allweddol

- Casglu a dadansoddi gwybodaeth a data er mwyn deall y galw presennol ac yn y dyfodol am eiriolaeth o dan “y Ddeddf”. Defnyddio data, gwybodaeth a deallusrwydd yn effeithiol.
- Dadansoddi’r galw o ran hawliau gofalwyr a grwpiau blaenoriaeth e.e. y rheini â nam ar y synhwyrau.
- Archwilio’r strategaethau gwasanaeth ac asesu’r boblogaeth i nodi sut y gallai eiriolaeth broffesiynol annibynnol fod yn berthnasol i ddiwallu anghenion.
- Dyrannu digon o adnoddau i fodloni’r galw - gan sicrhau rôl eiriolaeth broffesiynol annibynnol fel rhan o wasanaethau craidd sydd wedi’u gwreiddio mewn arferion staff.
- Sefydlu digon o ddarparwyr o’r ansawdd cywir i fodloni’r galw - deall ac ysgogi’r farchnad.
- Cynnal dadansoddiad o’r farchnad i gynnwys anghenion hunan-arianwyr.

## Cyflwyniad/Cyngor

Mae comisiynu gofal cymdeithasol yn golygu gwneud penderfyniadau ynghylch pa wasanaethau sydd eu hangen i ymateb i anghenion gofal cymdeithasol plant a phobl ifanc mewn angen ac oedolion yng Nghymru. Mae hefyd yn golygu gwneud penderfyniadau am allu, lleoliad, cost ac ansawdd gwasanaethau ynghyd â sut a phwy fydd yn eu darparu.

Bydd angen i gomisiynwyr gynnwys yr holl bartneriaid wrth amcangyfrif y galw am eiriolaeth broffesiynol annibynnol ac ymgysylltu â chymunedau a sefydliadau cymunedol, e.e. darparwyr gwasanaethau ataliol yn y trydydd sector, i nodi sut y galla eiriolaeth broffesiynol annibynnol fod yn berthnasol i ddiwallu anghenion. Gellir gwneud hyn drwy baneli dinasyddion, fforymau darparwyr, neu fforymau gwerth cymdeithasol

Mae comisiynu yn cynnwys cynllunio a chaffael gwasanaethau. Mae’n ymwneud â chyflawni cyfrifoldebau statudol yr awdurdod lleol, a llunio gwasanaethau i ymateb i anghenion gofal cymdeithasol pobl yn awr ac yn y dyfodol. Dylai’r comisiynu ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol ddilyn egwyddorion comisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol eraill, gan gymryd i ystyriaeth nodweddion a gofynion penodol a nodwyd. Mae datblygu’r IAA yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am anghenion pobl a dylid cael mynediad atynt hefyd wrth ystyried y galw am eiriolaeth.

## Adnoddau eraill

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dweud bod yn rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynnal asesiad o'r boblogaeth. Bydd hyn yn amlygu anghenion gofal a chymorth mewn ardal.

  http://bit.ly/PopAAreaP

- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cyhoeddi pecyn cymorth asesiad o'r boblogaeth rhyngweithiol. Mae'n rhoi help a chymorth i chi amcangyfrif y galw. Hyperddolenni i'r pecyn cymorth asesiad o'r boblogaeth.

  http://bit.ly/PopAssessTool

- Cyhoeddwyd Adroddiad asesiad o'r boblogaeth genedlaethol gofal a chymorth yng Nghymru mis Tachwedd 2017 gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd hwn yn nodi canfyddiadau allweddol o bob un o'r 7 adroddiad asesu poblogaeth rhanbarthol. Disgrifiodd pob rhanbarth eu darpariaeth eiriolaeth gan gynnwys Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol. Disgrifiodd rhai drefniadau rhanbarthol a roddwyd ar waith i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth.

  http://bit.ly/SCWPAreport

- Mae eiriolaeth Deddf Comisiynu Gofal: gwaith ar droed yn edrych ar gomisiynu a sut roedd awdurdodau lleol yn Lloegr yn edrych ar ffyrdd o amcangyfrif y galw.

  http://bit.ly/CAadvocacyReport

- Mae adnoddau sy'n cyflenwi gwybodaeth am ddulliau ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau, unigolion, grwpiau a sefydliadau yn y pecyn cymorth asesiad o'r boblogaeth

  http://bit.ly/PopAssessTool

- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru a Data Cymru wedi dwyn ynghyd ystod o ddata o amrywiaeth o ffynonellau sy'n ymwneud â'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol a'r cyflenwad ohonynt. Ei nod yw rhoi darlun cenedlaethol o sefyllfa'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ogystal â chyfleoedd i werthuso, monitro ac ymchwilio i berthynas rhwng gweithgarwch gwasanaeth a chanlyniadau i ddefnyddwyr. Data Gofal Cymdeithasol

  http://www.socialcaredata.wales/IAS/

# 7 Opsiynau ar gyfer modelau comisiynu

## Tasgau allweddol

- Ystyried yr opsiynau ar gyfer comisiynu eiriolaeth e.e. dull rhanbarthol o gomisiynu eiriolaeth, contract sengl, both a sbôcs.
- Ystyried y ffordd orau o gaffael.
- Gweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill (Iechyd, tai, budd-daliadau) ac ystyried trefniadau comisiynu ar y cyd er mwyn lleihau 'seilos' eiriolaeth.
- Ystyried sut y gall trefniadau comisiynu ar y cyd gyfrannu at sicrhau gwerth am arian i gomisiynwyr a chynaliadwyedd i ddarparwyr.
- Dylanwadu ar y farchnad leol ar gyfer eiriolaeth i ddatblygu gwasanaethau yn unol ag anghenion eich poblogaeth.
- Sicrhau nad yw dyfarnu contractau yn hanesyddol yn llywio eich dull gweithredu.
- Cytuno sut y byddwch yn diffinio ac yn adeiladu ansawdd i fanylebau ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol - i'w wneud mewn modd cydgynhyrchiol. Comisiynu gwasanaethau ar y cyd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol pan ystyrir bod hynny'n briodol. Cefnogi hyn gydag adnoddau a rennir.
- Annog partneriaethau rhwng sefydliadau llai a rhai mwy.
- Gweithio gyda darparwyr eiriolaeth broffesiynol annibynnol i ddatblygu atebion a goresgyn rhwystrau mewn partneriaeth.
- Hwyluso deialog gyda rhanddeiliaid a darparwyr allweddol.
- Comisiynu ar sail blaengynllunio yn hytrach na data hanesyddol.
- Hyfforddi staff i adnabod pryd mae angen cymorth eiriolaeth (gan gynnwys IAA).
- Sefydlu mecanwaith i roi llais i ddinasyddion

## Cyflwyniad/cyngor

Mae ystod o opsiynau ar gyfer comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn effeithiol, fel y dangosir isod, a dylech ystyried rhinweddau pob un. Dylid ystyried y cyfleoedd i fanteisio ar weithio'n rhanbarthol yn systematig ym mhob achos, a'r rheswm dros hynny, os nad yn briodol. Yn ogystal ag atgyfnerthu cyfrifoldebau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol dros eiriolaeth, mae dull rhanbarthol yn cynnig cyfle pellach ar gyfer dysgu ar y cyd ar draws ffiniau awdurdodau lleol, yn helpu i gymhwyso arfer gorau a rhannu gwybodaeth a gwybodaeth, ac i brofi dulliau ataliol strategol yn systematig ar gyfer comisiynu eiriolaeth ehangach ac eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar lefel ranbarthol. Gall y dull mwy systematig hwn arwain at fentrau lleol priodol, wedi eu seilio ar farn gyffredinol gyson a chlir ar sut a lle mae cydweithio rhanbarthol yn ychwanegu gwerth, ac ar yr un pryd yn glir lle mae angen ymagwedd fwy lleol.

Gallai'r dull rhanbarthol hefyd hwyluso comisiynu ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, a thrwy hynny helpu i greu gwell dealltwriaeth o berthnasedd cymhwyso gwahanol fathau o eiriolaeth mewn amgylchiadau penodol.

## Eglurhad

Mae'r ystod o opsiynau a welwyd o fewn ffigur 6 wedi'u cynllunio gan sefydliad eiriolaeth cenedlaethol o'r enw VoiceAbility <http://www.voiceability.org/> ac yn amlinellu manteision ac anfanteision cymharol pob un o'r pedwar model a ddisgrifiwyd. Gellir cymhwyso pob un o'r rhain ar sail leol, ranbarthol neu is-ranbarthol ac mae'n bosibl defnyddio trefniadau cytundebol amrywiol ym mhob model. Er enghraifft, gellir defnyddio contract bloc am y rhan fwyaf o oriau neu gysylltiadau (e.e. 80%) a'r gyfran sy'n weddill (h.y. 20%) naill ai i'w bilio i'r awdurdod lleol ar sail prynu yn y fan a'r lle, neu ddyraniad, y gellid ei ddefnyddio'n hyblyg ar draws pob math o eiriolaeth i ymateb i amrywiadau mewn galw.

Pan ymgymerir â chomisiynu ar raddfa ehangach nag awdurdod lleol unigol, mae'n bosibl i un awdurdod weithredu fel arweinydd o ran ymgymryd â'r tasgau angenrheidiol ar ran yr holl asiantaethau partner. Yn yr un modd, gall darparwyr sy'n gweithio ar y cyd enwebu darparwr arweiniol i weithredu fel porth i ddarparwyr eraill, y gallai rhai ohonynt gynnig gwahanol fathau o eiriolaeth i wahanol grwpiau defnyddwyr.

Sylwch fod y disgrifiadau yn y diagram VoiceAbility yn awgrymu rhywfaint o ffurfioldeb yn y trefniadau tendro a chontractio nad ydynt, o bosibl, mor berthnasol os dilynir dull mwy cydweithredol o weithredu rhwng comisiynwyr a darparwyr. Mae'r adrannau ar bennu a chaffael gwasanaethau yn esbonio hyn ymhellach.

## Adnoddau eraill

- Eiriolaeth Deddf Comisiynu Gofal: Gwaith ar droed
  http://bit.ly/CAadvocacyReport

VoiceAbility

## VoiceAbility: Modelau Comisiynu Eiriolaeth

| Model | Disgrifiad | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Sengl** | Math penodol o eiriolaeth (Eiriolaeth Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol [IMCA], eiriolaeth generig, Eiriolaeth o dan y Ddeddf Gofal), yn cael ei gomisiynu fel gwasanaeth arwahanol gyda'i gontract ei hun. Gellir tendro hwn ar ei ben ei hun, neu fel un lot o fewn tendr aml-lot mwy. Fel arfer yn cael ei ddarparu gan un darparwr, ond gall contractau mwy darparu cyfleoedd i weithio mewn Partneriaeth. | • Perthynas glir rhwng gwasanaeth dan gontract a chyllid<br>• Yn galluogi darparwyr arbenigol i gynnig cefnogaeth fedrus i bobl<br>• Yn gallu helpu darparwyr llai gyda hanes llwyddiannus o'r math hwnnw o eiriolaeth, gan wella dewis yn lleol<br>• Gellir atgyfnerthu ymarfer ac arbenigedd arbenigol<br>• Gall fod yn gyflym ac yn syml i'w gomisiynu | • Rheoli contractau yn fwy llafurus<br>• Llai o gyfleoedd i gael enillion effeithlonrwydd a/neu darbodion maint<br>• Gall gwasanaethau gael eu datgymalu, oni bai eu bod wedi'u cydlynu'n dda, gan effeithio ar ansawdd a pharhad<br>• Mae contractau bach yn fwy agored i broblemau staffio ac aflonyddu ar wasanaeth<br>• Gall y gallu i gynnig dull cyflenwi hyblyg fod yn gyfyngedig |
| **Aml-wasanaeth** | Mae sawl math penodol o eiriolaeth (e.e. IMCA, Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol [IMHA] ac Eiriolaeth Cwynion y GIG) yn cael eu comisiynu gyda'i gilydd o dan gontract sengl. Gellir ei ddarparu gan un darparwr neu gan bartneriaeth (yn gweithio ar sail consortiwm neu Arweiniol/Is) | • Darbodion maint i Gomisiynwyr<br>• Cyfleoedd ar gyfer partneriaethau/consortia<br>• Mae gan ddarparwr/darparwyr gwasanaeth fwy o hyblygrwydd oherwydd bod cael mwy o staff yn cynnig gwell parhad gwasanaeth<br>• Potensial ar gyfer mwy o amrywiaeth o ran darparwyr<br>• Yn gallu gwella hygyrchedd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau | • Ddim mor effeithlon â Gwasanaeth Llawn o ran cost ac ansawdd<br>• Yn fwy deniadol i ddarparwyr mwy ac felly risg bosibl i sefydliadau lleol, ac felly'n lleihau dewis<br>• Mae angen mwy o baratoi wrth gomisiynu |
| **Gwasanaeth llawn** | Pob gwasanaeth eiriolaeth lleol o fewn ardal ALl yn cael eu comisiynu o dan un contract sengl.<br><br>Gellir ei ddarparu gan un darparwr neu gan bartneriaeth (yn gweithio ar sail consortiwm neu Arweiniol/Is) | • Haws a chymryd llai o amser i reoli contractau<br>• Data cyson ar weithgarwch a chanlyniadau gwasanaeth<br>• Gall tîm staff mwy gynnig mwy o amrywiaeth ddiwylliannol<br>• Cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth/ consortia<br>• Potensial sylweddol ar gyfer darbodion maint<br>• Mynediad hawdd a pharhad clir i'r gwasanaeth<br>• Cyfleoedd i staff draws-hyfforddi a fydd yn darparu mwy o hyblygrwydd ac ymatebolrwydd | • Wyau i gyd mewn un fasged - gall effaith y prif gontractwr yn tanberfformio neu broblemau ariannol/gweithredol fod yn fwy<br>• Ychydig o opsiynau sydd gan ddarparwyr bach, lleol, heblaw gweithredu fel partner/ is-gontractwr i'r prif ddarparwr<br>• Gall comisiynu fod yn fwy cymhleth a chymryd llawer o amser |
| **Prif ganolfan a lloerennau** | Yn aml yn fodel partneriaeth, mae'r Prif Ganolfan a'r Lloerennau yn darparu eiriolaeth Aml-wasanaeth neu Wasanaeth Llawn ond gydag ychwanegiad un gwasanaeth cyswllt/brysbennu canolog (y Ganolfan) sy'n cynnal asesiad cychwynnol ac atgyfeiriad ar unwaith i'r gwasanaethau eirioli (y Llorennau), neu gyfeirio at wasanaethau cymorth amgen i'r rhai yr ystyrir eu bod yn anghymwys i gael eiriolaeth. | • Mae gan bob partner rolau ac atebolrwydd clir, ond yn dod â gwasanaethau/arbenigedd eraill i'r bwrdd<br>• Yn cynnig pwynt cyswllt sengl / mynediad i staff gwybodus, sy'n gwneud atgyfeiriadau yn haws<br>• Gwell cydgysylltu a monitro perfformiad<br>• Yn gallu cynnig partner strategol cryfach i'r ALl<br>• Yn gallu cadw / datblygu capasiti cymunedol lleol trwy draws-hyfforddi a chydweithio<br>• Yn gallu darparu achubiaeth ar gyfer gwasanaethau anstatudol, ac ar gyfer ystod eang o ddarpariaeth gymunedol arall | • Mae gan bartneriaethau gostau ychwanegol na ellir eu hosgoi<br>• Gallai safonau, cronfeydd data a dulliau amrywiol fod yn anodd eu halinio<br>• Gall y strwythur ymddangos yn ddryslyd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol<br>• Angen llif gwaith, systemau rheoli gwybodaeth ac arferion sy'n gallu bod yn anodd i sefydliadau llai eu hariannu |

**Ffigur 6: Modelau Comisiynu Eiriolaeth**

# 8 Pennu'r gwasanaeth sydd ei angen

## Tasgau Allweddol

- Sicrhau'r cydweithrediad mwyaf posibl rhwng yr holl wasanaethau eiriolaeth a gomisiynir er mwyn cyflawni'r ystod o ddyletswyddau sydd eu hangen.
- Cynnal deialog gyda rhanddeiliaid allweddol a darparwyr posibl.
- Ystyried yr opsiynau ar gyfer comisiynu eiriolaeth e.e. dull rhanbarthol o gomisiynu eiriolaeth, contract sengl, both a sbôcs.
- Ystyried y ffordd orau o gaffael.
- Gweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill (Iechyd, tai, budd-daliadau) ac ystyried trefniadau comisiynu ar y cyd er mwyn lleihau 'seilos' eiriolaeth.
- Ystyried sut y gall trefniadau comisiynu ar y cyd gyfrannu at sicrhau gwerth am arian i gomisiynwyr a chynaliadwyedd darparwyr.
- Dylanwadu ar y farchnad leol ar gyfer eiriolaeth i ddatblygu gwasanaethau yn unol ag anghenion eich poblogaeth.
- Sicrhau nad yw dyfarnu contractau yn hanesyddol yn llywio eich dull gweithredu.
- Cytuno sut y byddwch yn diffinio ac yn adeiladu ansawdd i fanylebau ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol - i'w wneud mewn modd cydgynhyrchiol. Cytuno ar drothwyon ansawdd ar gyfer darparwyr, gan gynnwys hyfforddiant.
- Adolygu canllawiau contractio.
- Cynllunio cytundebau lefel gwasanaeth a chontractau.
- Ystyried "rhestrau cymeradwy".
- Ystyried annog partneriaethau rhwng sefydliadau llai a rhai mwy.
- Sicrhau bod darparwyr yn bodloni trothwyon ansawdd.
- Cymhwyso trefniadau caffael a chontractio priodol gan ddefnyddio dull cytûn.
- Trin pob darparwr yn gyfartal.
- Sicrhau bod darparwyr yn annibynnol ar gyrff comisiynu.
- Egluro disgwyliadau ar gyfer darparwyr ac ymarferwyr.

## Cyflwyniad/Cyngor

Mae'r fframwaith yn disgrifio manteision dull cyd-gynhyrchiol a chydweithredol o gomisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Dylech ymdrin â'r broses o bennu'r gwasanaeth sydd ei angen mewn ysbryd o bartneriaeth, gyda'r nod o sicrhau y bydd digon o ddarparwyr o'r ansawdd cywir i ddarparu'r gwasanaeth. Bydd hwyluso deialog agored a pharhaus drwy drafodaethau rhwng darparwyr a rhwng comisiynwyr a darparwyr yn helpu i leihau camddealltwriaeth ac yn creu canlyniadau buddiol i'r ddwy ochr. Byddai trefnu fforwm darparwyr yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer hyn. Mae cynnwys defnyddwyr a gofalwyr wrth nodi'r gwasanaeth sydd ei angen hefyd yn amhrisiadwy.

Mae'n ddigon posibl nad yw'r gwasanaeth sydd ei angen wedi'i nodi yn yr ystyr draddodiadol o fanyleb gwasanaeth sy'n cael ei defnyddio'n aml mewn proses dendro ond sydd ar ffurf cyfres o ganlyniadau dymunol y cytunir arnynt gan y ddwy ochr ac na ellir eu cyflawni ond gan ddarparwyr sydd â'r hawl, profiad ac ansawdd.

Er mwyn osgoi sefyllfa lle mae comisiynwyr yn mabwysiadu dull cyffredinol o weithredu, mae rhai manylebau gwasanaeth drafft ar gyfer eiriolaeth (nid eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn unig) wedi'u cynnwys yn y pecyn cymorth hwn ond maent yn dod gyda cafeat cryf y dylent gael eu cyfeirio at syniadau yn hytrach na'u dilyn yn llythrennol. Yn gyntaf, dylid nodi bod rhai ohonynt yn dod o awdurdodau yn Lloegr felly nid yw rhai o'r cyfeiriadau yn berthnasol yng nghyd-destun Cymru. Yn ail, bydd graddau'r gydymffurfiaeth â gofynion yn ychwanegol at y rhai yr ystyrir eu bod yn hanfodol i sicrhau gwasanaeth o ansawdd yn effeithio ar nifer a natur y darparwyr sy'n fodlon cymryd rhan.

Dull a ffefrir yw bod comisiynwyr a darparwyr yn trafod yr ystod o faterion y mae angen eu cynnwys mewn cytundebau ffurfiol neu lai ffurfiol a hefyd yn cynnwys defnyddwyr a gofalwyr wrth lunio casgliadau. Gwnewch yn siŵr bod cyd-ddealltwriaeth am yr hyn sy'n gwbl hanfodol a'r hyn sy'n ddewisol. Amlinellir enghreifftiau o'r materion hanfodol isod. Dylai comisiynwyr a darparwyr drafod perthnasedd pob un o'r rhain ac eraill yng nghyd-destun eu hamgylchiadau penodol, gan bwysleisio bob amser y dylai'r ffocws fod ar ansawdd y gwasanaeth i'r unigolyn.

- diffiniadau a disgrifiadau o eiriolaeth ac eiriolaeth broffesiynol annibynnol
- gwybodaeth am gymhwysedd ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol - meini prawf a grwpiau defnyddwyr
- canlyniadau a safonau dymunol - e.e. disgwyliadau o ran ansawdd gwasanaeth, parch at breifatrwydd ac urddas, hawliau a theimladau, amrywiaeth a materion iaith
- ystod a lefel y gwasanaeth - e.e. rhychwant daearyddol, amcangyfrifon o'r galw, amseroedd ymateb
- gofynion trefniadaeth a staffio - e.e. cymwysterau a throthwyon ansawdd (e.e. marc perfformiad ansawdd eiriolaeth), gofynion diogelu, anghenion iaith, tystiolaeth drwy brofiad
- costau, ffioedd a hyd y contract - cytuno ar y dull mwyaf cynaliadwy o weithredu, e.e. contractau 3 blynedd
- mecanweithiau adrodd - amseru, fformat

Mae "y Ddeddf" yn hyrwyddo modelau darparu amgen o dan S16; mentrau cydweithredol/trefniadau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, sefydliadau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Mae'n darparu ar gyfer fforymau rhanbarthol neu fforymau gwerth cymdeithasol ac yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo darparwyr sy'n seiliedig ar werth cymdeithasol yn eu hardal. Dylid archwilio'r cysyniad o ddyfeisio manylebau a chontractau gwasanaeth ar sail gwerth cymdeithasol mewn perthynas ag eiriolaeth. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cynhyrchu pecyn cymorth fforymau gwerth cymdeithasol sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ar y pwnc hwn.

Er mwyn datblygu sector cadarn a chynaliadwy ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, ataliol a lles, mae angen gweledigaeth hirdymor ar gyfer cefnogi a datblygu darparwyr gwasanaethau sy'n seiliedig ar werth cymdeithasol. Mae'r fforwm gwerth cymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol o ran llywio datblygiad y gwasanaethau hyn a defnyddio amrywiaeth o gyfleoedd i wireddu dyheadau'r SSWBA.

## Eglurhad

- SCIE - Comisiynu eiriolaeth annibynnol - senarios
  http://bit.ly/SCIEscenarios
- Manyleb ddrafft Salford
  http://bit.ly/SalfordSpec

## Adnoddau Eraill

- SCIE - Comisiynu eiriolaeth annibynnol
  http://bit.ly/SCIEadvocacycomm
- Adroddiad Ymchwilio Comisiynu Eiriolaeth - Prifysgol Birmingham
  http://bit.ly/CAadvocacyReport
- Egwyddorion a Safonau SIAA mewn Eiriolaeth
  http://bit.ly/SIAAprincstand

# 9 Arferion caffael

## Tasgau Allweddol

- Ystyried y ffordd orau o gaffael.
- Cytuno ar drothwyon ansawdd ar gyfer darparwyr, gan gynnwys hyfforddiant.
- Cytuno sut y dylid nodi'r gwasanaeth.
- Adolygu canllawiau contractio.
- Cynllunio cytundebau lefel gwasanaeth a chontractau.
- Ystyried "rhestrau cymeradwy".
- Cymhwyso trefniadau caffael a chontractio priodol gan ddefnyddio dull cytûn.
- Trin pob darparwr yn gyfartal.
- Sicrhau bod darparwyr yn annibynnol ar gyrff comisiynu.
- Egluro disgwyliadau ar gyfer darparwyr ac ymarferwyr.
- Adolygu priodoldeb y fanyleb gwasanaeth a'r prosesau caffael.

## Cyflwyniad/cyngor

Mae'r cylch comisiynu yn dangos bod cysylltiad agos rhwng comisiynu a chaffael a bod yn rhaid i'r gweithgareddau comisiynu a amlygir yn y cylch allanol lywio datblygiad parhaus gweithgareddau caffael (fel y dangosir yn y cylch mewnol). Gall arbenigwyr caffael chwarae rhan bwysig yn y gwaith o bennu'r dull priodol o gaffael. Dylech ofyn am eu cyngor yn gynnar a sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses gomisiynu.

Mae trafodaethau gydag arbenigwyr caffael wrth ddatblygu'r pecyn cymorth hwn yn awgrymu bod nifer o opsiynau ar gael o fewn y broses gaffael gyffredinol yn dibynnu ar amgylchiadau lleol. Mae rhai o'r rhain yn fwy hyblyg na dulliau traddodiadol o dendro/pennu/contractio felly mae'n gwneud synnwyr i gael y cyfraniad a'r cyngor gan yr arbenigwyr o'r cychwyn cyntaf. Mae dull o gaffael "cyffyrddiad ysgafn" wedi'i ddatblygu a cheir linc i gyngor ar hyn isod.

Mae eich perthynas â darparwyr yn sail i'r holl broses gomisiynu gan gynnwys caffael. Fe'ch cynghorir i gael eu barn am ba brosesau caffael sy'n cyd-fynd orau â'ch anghenion cydfuddiannol. Bod yn agored ac yn dryloyw ynghylch unrhyw gyfathrebu â darparwyr posibl. Sicrhewch eich bod yn cynnig yr un cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu i bawb, a byddwch yn glir ynghylch gofynion unrhyw broses gaffael yr ydych yn ceisio ei dilyn.

Sicrhau bod gweithgareddau caffael a monitro contractau yn gymesur â'r risg ac yn hyrwyddo cyflawni'r canlyniadau. Dylai'r broses gaffael gael ei harwain gan y dadansoddiad strategol o angen dros oes y contract ac o ran y berthynas â gwasanaethau

eraill. Ystyriwch gomisiynu ar y cyd ag asiantaethau eraill gan gynnwys awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd eraill.

Mae fforymau darparwyr yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer trafod caffael ynghyd â fforymau a grëwyd i ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr. Rydych yn debygol o dderbyn adborth o'r rhain am unrhyw fanyleb gwasanaeth caffael arfaethedig ac i osod cwestiynau a senarios pellach mewn holiaduron tendro os ydynt yn cael eu hystyried.

## Adnoddau Eraill

- SCIE comisiynu eiriolaeth annibynnol
  **http://bit.ly/SCIEadvocacycomm**
- Adroddiad ymchwil comisiynu eiriolaeth
  **http://bit.ly/CAadvocacyReport**
- Canllawiau ar drefn cyffyrddiad ysgafn
  **http://bit.ly/LTRguidance**

# 10 Cael darparwyr digonol a medrus

## Tasgau allweddol

- Cynnal a hwyluso deialog gyda rhanddeiliaid allweddol a darparwyr posibl.
- Ystyried y lefel ofynnol o hyfforddiant ar gyfer Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol a phennu'r model ariannu.
- Ystyried y ffordd orau o gaffael.
- Gweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill (Iechyd, tai, budd-daliadau) ac ystyried trefniadau comisiynu ar y cyd er mwyn lleihau 'seilos' eiriolaeth.
- Ystyried sut y gall trefniadau comisiynu ar y cyd gyfrannu at sicrhau gwerth am arian i gomisiynwyr a chynaliadwyedd darparwyr.
- Dylanwadu ar y farchnad leol ar gyfer eiriolaeth i ddatblygu gwasanaethau yn unol ag anghenion eich poblogaeth.
- Sicrhau nad yw dyfarnu contractau yn hanesyddol yn llywio eich dull gweithredu.
- Comisiynu ar sail blaengynllunio yn hytrach na data hanesyddol.
- Cytuno sut y dylid nodi'r gwasanaeth. Cytunwch sut y byddwch yn diffinio ac yn ymgorffori ansawdd i fanylebau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol - i'w wneud mewn modd cydgynhyrchiol.
- Cytuno ar drothwyon ansawdd ar gyfer darparwyr, gan gynnwys hyfforddiant.
- Sicrhau bod darparwyr yn bodloni trothwyon ansawdd.
- Adolygu canllawiau contractio.
- Cynllunio Cytundebau Lefel Gwasanaeth a chontractau.
- Ystyried "rhestrau cymeradwy".
- Annog partneriaethau rhwng sefydliadau llai a rhai mwy.
- Gweithio gyda darparwyr eiriolaeth roffesiynol annibynnol i ddatblygu atebion a goresgyn rhwystrau mewn partneriaeth.
- Ystyried annog partneriaethau rhwng sefydliadau llai a rhai mwy.
- Cymhwyso trefniadau caffael a chontractio priodol gan ddefnyddio dull cytûn.
- Trin pob darparwr yn gyfartal.
- Sicrhau bod darparwyr yn annibynnol ar gyrff comisiynu.
- Rhoi trefniadau cymesur ar waith ar gyfer monitro contractau.
- Datblygu prosesau monitro contractau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cydberthnasau â darparwyr.
- Gweithio mewn partneriaeth gadarnhaol â hwy i wella perfformiad.
- Adolygu priodoldeb y fanyleb gwasanaeth a'r prosesau caffael.

## Cyngor/Gwybodaeth

Fel gydag agweddau eraill ar y pecyn cymorth hwn sail y cyngor i sicrhau darparwyr digonol a medrus yw mabwysiadu'r egwyddor o weithio mewn partneriaeth â nhw. Mae dull drws agored lle caiff darparwyr eu gwerthfawrogi yn debygol o gynyddu eu diddordeb mewn ymateb i gyfleoedd am gontractau. Bydd dull cydweithredol o gyflawni'r tasgau allweddol, y caiff rhai ohonynt eu hehangu isod, yn golygu y caiff darparwyr eu hintegreiddio'n llawn i ddiwallu anghenion a datrys problemau. Mae'n bwysig cynnwys darparwyr posibl ar gam cynnar yn y broses. Byddant yn rhoi mewnwelediad a heriau adeiladol i'ch cynlluniau.

Sefydlu fforymau darparwyr lle y gall darparwyr presennol a darpar ddarparwyr yn y dyfodol gymryd rhan yn ffordd ddefnyddiol o greu deialog barhaus. Mae dulliau eraill o ddatblygu dealltwriaeth o ddarparwyr posibl yn cynnwys:

- Digwyddiadau profi'r farchnad / 'cwrdd â'r prynwr'.
- Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau eiriolaeth presennol.
- Ymweliadau safle.
- Holiaduron darparwyr.

Bydd angen i chi ddatblygu darlun clir o'r amrywiaeth o ddarparwyr posibl yn eich ardal: eu cryfderau, eu gwendidau a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Gan ddefnyddio'r dulliau uchod i wneud hyn, gweithio gyda darparwyr i sicrhau amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael ac annog cydweithredu lle bo'n bosibl i ddatblygu'r farchnad. Adeiladu unrhyw gynlluniau ar gyfer comisiynu gwasanaethau eiriolaeth i mewn i ddatganiadau sefyllfa'r farchnad a gweithio gyda darparwyr i ddeall y farchnad a'r heriau posibl y mae eich cynlluniau comisiynu yn eu cyflwyno.

Ystyried annog datblygu partneriaethau rhwng sefydliadau mwy a rhai lleol llai. Gellid datblygu hyn drwy werthuso a chefnogi cymheiriaid i gymheiriaid neu drwy drefniadau consortiwm mwy ffurfiol. Datblygu manylebau gwasanaeth a chontractau sy'n benodol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n ofynnol gan y darparwr (neu'r darparwyr) a chanolbwyntio ar ganlyniadau.

Sicrhau hyblygrwydd ac ariannu sefydlogrwydd ar gyfer darparwyr. Nodi'n ofalus y canlyniadau disgwyliedig, wedi'u datblygu'n lleol gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys darpar ddefnyddwyr gwasanaethau. Pennu mecanwaith ar gyfer sicrhau annibyniaeth y gwasanaeth - mae'n arfer da nodi'r dull o ddiogelu annibyniaeth mewn cytundebau ariannu a chontractau. Byddai hyn yn cynnwys llawer o'r tasgau allweddol, yn enwedig er enghraifft:

- Trin pob darparwr yn gyfartal.
- Bod yn agored ac yn dryloyw ynghylch unrhyw gyfathrebu â darparwyr posibl. Sicrhewch eich bod yn cynnig yr un cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu i bawb, a byddwch yn glir ynghylch gofynion unrhyw broses gaffael yr ydych yn ceisio ei dilyn.
- Sicrhau bod gweithgareddau caffael a monitro contractau yn gymesur â'r risg ac yn hyrwyddo cyflawni canlyniadau.
- Gweithio gyda darparwyr i ddeall sut y gallwch sicrhau hyblygrwydd wrth ddarparu gwasanaethau a'r gallu i ymateb yn gyflym i newidiadau yn y galw.
- Cynnal deialog dda a chyson gyda darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau fel y gellir sylwi ar faterion cyflenwi yn gyflym ac yn hawdd, cyn iddynt ddod yn fater cytundebol.

- Datblygu prosesau monitro contractau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cydberthnasau â darparwyr. Gweithio mewn partneriaeth gadarnhaol â hwy i wella perfformiad.
- Gweithio gyda darparwyr i ddeall ble y gallai'r perfformiad fod yn methu a sut y gallent fynd i'r afael ag unrhyw broblemau.

O ran cyflawni ansawdd, mae'r Marc Perfformiad Ansawdd Eiriolaeth (QPM) yn system asesu a sicrwydd ansawdd gadarn ar gyfer darparwyr eiriolaeth annibynnol. Mae'n offeryn a ddefnyddir i feincnodi gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn erbyn fframwaith. Mae wyth maes ansawdd allweddol sy'n ffurfio'r Marc.

Ystyried lefel yr hyfforddiant a'r arbenigedd y mae'n rhaid i eiriolwyr unigol eu cael mewn perthynas â'r ystod eang o brosesau y bydd angen iddynt gefnogi pobl drwyddynt. Dylech sicrhau bod contractau'n caniatáu ar gyfer amser digonol a threfniadau digonol ar gyfer hyfforddiant a chymorth i staff, ynghyd â datblygiad proffesiynol parhaus.

Yn ogystal â chwblhau'r cymhwyster eiriolaeth annibynnol, dylid disgwyl i ddarparwyr sicrhau bod pob eiriolwyr annibynnol yn gallu cael hyfforddiant perthnasol pellach. Gall hyn gynnwys:

- Arfer da wrth ddiogelu oedolion.
- Eiriolaeth heb gyfarwyddyd.
- Cynllunio gofal a chymorth (neu gynllunio person-ganolog).
- Arfer da wrth herio penderfyniadau neu'r broses o wneud penderfyniadau'n effeithiol.
- Gwneud penderfyniadau â chefnogaeth (sut i gefnogi unigolyn sy'n ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau yn effeithiol).

Mae'n rhaid i ddarparwyr eiriolaeth a ariennir yn gyhoeddus gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (PSED) (Deddf Cydraddoldeb 2010) drwy dalu sylw dyledus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau rhwng pobl sy'n rhannu 'nodwedd warchodedig'.

Y nodweddion gwarchodedig yw:

- oedran
- anabledd
- ail-bennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw a chyfeiriadedd rhywiol

## Adnoddau eraill

- Mae'r Marc Perfformiad Ansawdd Eiriolaeth yn cael ei ddarparu gan y Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant (NDTi) https://qualityadvocacy.org.uk/
- SCIE - Comisiynu eiriolaeth annibynnol http://bit.ly/SCIEadvocacycomm

# 11 Mabwysiadu dull cyd-gynhyrchiol systematig

## Tasgau allweddol

- Sefydlu mecanwaith i roi llais i ddinasyddion.
- Cynnwys yn systematig bobl leol sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio, gwasanaethau eiriolaeth, wrth gasglu a dadansoddi gwybodaeth. Cyd-gynhyrchu'r dadansoddiad.
- Ymgysylltu â chymunedau a sefydliadau cymunedol, e.e. darparwyr gwasanaethau ataliol yn y trydydd sector, i nodi sut y gallai eiriolaeth broffesiynol annibynnol fod yn berthnasol i ddiwallu anghenion.
- Dulliau dylunio sy'n seiliedig ar yr egwyddor o gyd-gynhyrchu, gan ddechrau o safbwynt y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u gofalwyr.
- Sicrhau bod gwasanaethau:
  - Yn cael eu harwain gan farn a dymuniadau'r unigolyn.
  - Hyrwyddo hawliau ac anghenion yr unigolyn.
  - Gweithio'n ecsgliwsif i'r unigolyn.
  - Parchu cyfrinachedd.
  - Meddu ar weithdrefnau cwyno effeithiol a hygyrch.
  - Darparu parhad o ran darparu gwasanaethau.
  - Yn ymatebol i anghenion cyfathrebu'r unigolyn.

Sefydlu strategaeth gyfathrebu wedi'i chyd-gynhyrchu, wedi'i hysbysebu'n dda drwy amrywiaeth o fformatau, cyfryngau a lleoliadau.

Sefydlu system sy'n cynnwys y gymuned ehangach wrth adolygu'r defnydd o eiriolaeth broffesiynol annibynnol a'i heffeithiolrwydd.

## Cyflwyniad/cyngor

Mae cyd-gynhyrchu yng nghyd-destun eiriolaeth ac eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn ymwneud â chynorthwyo pobl i ymgysylltu cymaint ag sy'n bosibl â dod o hyd i'w hatebion eu hunain. Mae angen i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, gofalwyr, darparwyr, cydweithwyr mewnol megis arbenigwyr caffael i gyd fod o gwmpas y bwrdd i gyd-gynhyrchu'n effeithiol. Mae dulliau cydgynhyrchiol yn cymryd amser i feithrin ymddiriedaeth, perthnasoedd a dealltwriaeth, ond gallant sicrhau gwell defnydd o adnoddau, gwell canlyniadau i bobl a sicrhau dulliau hygyrch a theg o weithredu ar sail safbwyntiau amrywiol. Mae cyfleoedd i gyd-gynhyrchu drwy gydol y cylch cynllunio.

## Eglurhad


Amgaeir yn Atodiad [D] adroddiad sy'n seiliedig ar waith cydweithredol rhanbarthol Gwent. Mae'n disgrifio'r broses a arweiniodd partneriaid i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu eu dull strategol o gomisiynu eiriolaeth ehangach ac eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Mae'n dangos sut y mae cyd-gynhyrchu wedi cael ei roi ar waith ac yn cynnig enghraifft o ffordd ymlaen o ran comisiynu.

Mae'r darlun canlynol yn seiliedig ar ysgol gyfranogiad Arnstein[6], wedi'i addasu gan Gymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru. Mae hwn yn nodi camau mewn proses gyd-gynhyrchiol.

[6]Lithgow-Schmidt - ysgol cyfranogiad dinasyddion http://bit.ly/LadderCitizenParticipation

## Matrics Ymgysylltu â Dinasyddion

**Ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu nodweddiadol**




| Math o weithgaredd | Nodweddion | Grym gwasanaeth cyhoeddus penderfynwr | Grym Dinasyddion |
|---|---|---|---|
| Prosiectau cyd-gynhyrchu, y cytunwyd arnynt yn y tymor hwy, partneriaethau estynedig ehangach rhwng dinasyddion a'r rhai mewn awdurdod. Panel dinasyddion ar PSPB, dogfennau a ysgrifennwyd ar y cyd, ymchwil ar y cyd. | Perthynas hirdymor rhwng gwasanaethau a dinasyddion/grŵp. Mae nifer o bwyntiau cyswllt, partneriaeth yn arwain at ymgysylltu pellach, ar ystod ehangach o faterion, mae dinasyddion yn cael eu hystyried yn asedau hanfodol. Mae gan bob aelod fynediad i'w gilydd. Gall y dinesydd osod agenda. Aelod dinesydd gyda sefyllfa o rym (e.e. Cadeirydd). | Rhennir y pŵer i ddarparu adnoddau, penderfyniadau a chyfrifoldeb.<br>Mae gan wasanaethau ddealltwriaeth ddyfnach o sut maent yn effeithio ar ddinasyddion ac yn gallu ymateb yn effeithiol. | Rhennir y grym i ddarparu adnoddau, penderfyniadau a chyfrifoldeb. Gall dinasyddion ddwyn cyd-aelodau i gyfrif.<br>Gall dinasyddion osod yr agenda a blaenoriaethu materion cymunedol. Gall y gymuned weithredu fel gwesteiwr. |
| Dinasyddion yn aelodau o grwpiau gorchwyl a gorffen, grwpiau cynllunio, gweithdai untro, gweithgorau.<br>D.S. Rhaid i ddinasyddion gael eu grymuso a gallu cymryd rhan neu gall aelodaeth fod yn symboleiddiaeth (gweler isod). | Mae telerau ymgysylltu wedi'u gosod o amgylch mater penodol. Treulir amser yn datblygu syniadau gyda'i gilydd (pob aelod), nid yw gwasanaethau'n 'amddiffyn' y dinesydd rhag materion anodd, yn digwydd mewn gofod sy'n hygyrch i bawb. | Mae gwasanaethau'n caniatáu i ddinasyddion ddylanwadu ar broses yn ogystal â phenderfyniad. Mae gwasanaethau'n gwybod gwerth cynnwys dinasyddion o ran lles cymunedol a gwell gwasanaethau. | Mae gan ddinasyddion a'r gwasanaeth yr un grym o ran mater dan sylw, dealltwriaeth ddyfnach o'r mater, gwerthfawrogir cyfraniad dinasyddion a gellir ei olrhain trwy'r broses ac yn y canlyniadau. Gall dinasyddion adolygu canlyniadau ac ailedrych ar ddatblygiadau trwy eu cysylltiad â gwasanaethau. |
| Presenoldeb darparwyr gwasanaeth mewn digwyddiad a arweinir gan y gymuned.<br>Digwyddiad ymgynghori wedi'i gynnal gan wasanaethau. | Ymgynghoriad rhwng dinasyddion a gwasanaethau.<br>Mae'r gwasanaethau'n barod i ateb cwestiynau'n onest ac i gofnodi'r farn a fynegir gan ddinasyddion. Dylai ymgynghori da gynnig ffyrdd creadigol i gael barn dinasyddion. | Gall y gwasanaeth ddewis a ddylid ymateb i faterion newydd a godwyd ai peidio. Yn dilyn y digwyddiad mae gan wasanaethau reolaeth lwyr dros yr hyn sy'n digwydd nesaf, a'r hyn sy'n cael ei wneud gyda barn y dinesydd gan gynnwys a yw'r safbwyntiau'n effeithio ar ddyluniad y gwasanaeth / penderfyniadau a wneir. | Gall dinasyddion godi materion na ofynnir amdanynt, gall dinasyddion ofyn cwestiynau a chael sgyrsiau dwy ffordd gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Ni allant sicrhau bod eu barn yn cael ei phasio ymlaen, nac y gweithredir arnynt. |
| Arolygon, ffurflenni adborth, blwch sylwadau.<br>Disgwyliadau gan ddarparwyr gwasanaeth yn cael eu trafod mewn cyfarfod cymunedol ffurfiol.<br>Mae'r gwasanaeth yn defnyddio trydydd parti i gynnal ymgynghoriad neu hwyluso arolwg neu adborth. | Mae materion a phynciau yn cael eu gosod gan wasanaethau ar adeg sy'n gyfleus i wasanaethau ac yn berthnasol iddynt. Ni ddarperir cyd-destun ehangach, yn aml dim gwybodaeth am yr hyn a allai ddigwydd nesaf. Ni all y dinasyddion ddylanwadu ar ba mor hygyrch yw'r gweithgaredd. Dim cyswllt uniongyrchol rhwng y gwasanaeth a'r dinasyddion. | Mae'r gwasanaeth yn cael persbectif dinasyddion ar fater a ddewiswyd, gall gwasanaeth ei ddefnyddio i wella / newid gwasanaethau ond gall hefyd ei 'barcio' yn ôl eu hwylustod.<br>Mae o fewn pŵer y gwasanaeth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r dinesydd. | Gall dinasyddion gynnig eu barn a'u profiadau ar fater penodol, anodd dilyn proses y tu hwnt i'r cam adborth. Mae gan y dinesydd llai i'w ennill na'r gwasanaeth.<br>Dylanwad dinasyddion yn dibynnu ar ansawdd ac uniondeb yr hwyluso. |
| Cylchlythyrau, cyhoeddiadau, ymgyrchoedd, pecynnau gwybodaeth am newidiadau neu opsiynau gydag arolwg ynghlwm. | Sgwrs un ffordd a reolir gan wasanaeth, yn aml ddim yn hygyrch iawn. Gall gynnwys arolwg, ond oherwydd bod pob agwedd ar wybodaeth yn cael ei rheoli gan y gwasanaeth, gall y gallu i gael effaith fod yn gyfyngedig iawn.<br>Llawer o jargon. | Gwybodaeth yw'r hyn y mae'r gwasanaeth eisiau i'r dinasyddion ei gwybod, nid yr hyn y mae'r dinesydd eisiau ei wybod. Gellir cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd ragfarnllyd, neu gellir ei chyflwyno'n onest. Gall gwasanaethau greu cwestiynau arweiniol i sicrhau ymateb dymunol. | Y grym i dderbyn gwybodaeth. |
| Mae dinasyddion yn cael eu dethol, mae gwybodaeth am faterion yn gyfyngedig ac wedi'i phenodi gan y gwasanaeth.<br>Gweithgaredd tebyg i 'rhoi sêl bendith'. | Fframiau amser byr, gwybodaeth anhygyrch, diffyg didwylledd neu dryloywder, nid oes gan y dinasyddion lais o ran sut maent yn ymgysylltu. Gwnaed penderfyniad eisoes, mae'r dinasyddion yn cael cyswllt penodedig â'r gwasanaeth. Llawer o jargon. | Y grym i 'arwain' dinasyddion i gyfeiriad penodol, y grym i bennu'r math o ymglymiad, y grym i bennu pwy sy'n cymryd rhan. Y grym i drefnu'r canlyniad a ddymunir. | Y grym i ymateb neu wrthod.<br>Nid yw'r dinesydd yn ymwybodol o'r broses benderfynu, nid oes ganddo unrhyw ffordd o gysylltu yn ôl na dilyn i fyny, mae'n dibynnu ar ewyllys da'r gwasanaeth. |

© Kathy Slinn 2015 Yn Seiliedig ar Ysgol Cyfranogiad Arnstein

**Ffigur 7: Ysgol cyfranogiad Arnstein**[7]

[7]Lithgow-Schmidt - ysgol cyfranogiad dinasyddion

## Adnoddau eraill

Dyma rai adnoddau a fydd yn eich helpu i gyd-gynhyrchu'r comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol:

- SSIA - Pecyn cymorth asesiad o anghenion y boblogaeth ryngweithiol sy'n darparu canllawiau ar gynnwys pobl.

  Pecyn Cymorth Asesiad o'r Boblogaeth
  **http://bit.ly/PopAssessTool**

- Enghreifftiau ymarfer SCIE o roi cyd-gynhyrchu ar waith

  **http://bit.ly/SCIEPracticeExamples**

- Mae Diverse Cymru wedi llunio adroddiad sy'n cefnogi hygyrchedd, ac sy'n ymwneud â galluogi pobl i fod yn rhan o ddylanwadu ar benderfyniadau a chyd-greu newid.

  Cysylltu â phobl - Sut i gysylltu darparwyr gwasanaethau â phobl o gefndiroedd amrywiol

  **http://bit.ly/DCaccessibility**

- Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru yn darparu cymorth ac adnoddau ar gyd-gynhyrchu.

  Adnoddau'r Rhwydwaith Cydgynhyrchu
  **https://copronet.wales/**

# 12 Monitro ac adolygu angen, darpariaeth a pherfformiad

## Tasgau Allweddol

- Cefnogi ac ariannu ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth ac adborth.
- Defnyddio adborth, gan gynnwys cwynion, i ysgogi gwelliant.
- Adolygu achosion unigol yn systematig i nodi effaith ac effeithiolrwydd eiriolaeth broffesiynol annibynnol.
- Defnyddio technegau sganio'r gorwel i nodi newidiadau yn y dyfodol.
- Defnyddio monitro perfformiad i sicrhau ei fod:
  - Yn seiliedig ar ganlyniadau.
  - Yn cynnwys gwybodaeth am weithgarwch a chyllid.
  - Yn gymesur.
  - Yn meddu ar system syml i gasglu data.
  - Yn cynnwys gwaelodlinau.
- Cynnal hunan-asesiad er mwyn deall eich perfformiad eich hun.
- Defnyddio gwerthuso allanol ar gyfer dysgu ychwanegol.
- Archwilio ymchwil ac arfer da er mwyn sicrhau'r gwerth a'r canlyniadau gorau.
- Defnyddio gweithdrefn gwyno effeithiol.
- Os oes angen, dadgomisiynu gwasanaethau lle maent yn methu â bodloni canlyniadau ac yn rhoi gwerth am arian, a lle mae ymdrechion i weithio mewn partneriaeth wedi methu â gwella perfformiad.
- Ceisio gwella trefniadau comisiynu yn barhaus, gan adolygu dysgu i lywio'r holl weithgareddau comisiynu.
- Rhannu dysgu am arferion cyfredol ac ystyried cydweithio yn y dyfodol.
- Rhoi trefniadau cymesur ar waith ar gyfer monitro contractau.
- Monitro cynnydd ac ystyried defnyddio matrics aeddfedrwydd.

## Gwybodaeth/cyngor

Mae rhywfaint o ddata cenedlaethol ar gael sy'n berthnasol i eiriolaeth ac y gallai roi rhyw syniad am p'un a yw eiriolaeth yn gweithio'n dda. Gan ei fod ar gael yn genedlaethol, gellir ei ddefnyddio i edrych ar batrymau ledled Cymru a gallai ddechrau sgyrsiau am gael arferion a chanlyniadau gwahanol rhwng rhanbarthau ac awdurdodau lleol. Mae'r data hwn wedi'i restru o dan 'Adnoddau eraill'.

Bydd y comisiynwyr yn awyddus i ddeall sut y maent yn datblygu eu gwasanaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Mae'r matrics hunanasesu ac aeddfedrwydd wedi'i ddatblygu gan gomisiynwyr gwasanaethau eiriolaeth yr awdurdodau lleol, gan weithio gyda

thîm Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (GTAP). Fe'u cynlluniwyd fel dogfennau mewnol, i helpu comisiynwyr i asesu eu cynnydd eu hunain o ran datblygu swyddogaeth gomisiynu gwasanaethau eirioli aeddfed. Ni ddylent fod yn ddychweliad data i unrhyw sefydliad allanol. Mae'r ddau wedi'u hatodi yn Atodiad [A]) a [B].

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi datblygu set ddata y maent yn gofyn i'w darparwyr eiriolaeth ddychwelyd atynt bob chwarter; mae'n cynnwys gwybodaeth am gleientiaid unigol a ddarperir gyda chyngor a chymorth, eiriolaeth ac eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn ogystal â'r effaith a'r cymorth parhaus a argymhellir. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro'r gwasanaethau a gomisiynwyd ac i helpu i gynllunio ar gyfer anghenion y dyfodol. Gallai awdurdodau lleol eraill ystyried y set hon o wybodaeth i reoli eu perfformiad eu hunain o ran eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Darperir y rhain fel dogfennau ar wahân i gyfeirio atynt ond ni fwriedir iddynt fod yn set ddata o'r fath. Mae nifer y bobl sy'n derbyn cymorth eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn cael ei fwydo i mewn i'w cerdyn adroddiad chwarterol pobl gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr fel mesurau ar gyfer 'Sicrhau hawliau a hawlogaethau' a 'Rheolaeth dros fywyd bob dydd' ymhlith mesurau eraill.

Mae rhywfaint o ddata cenedlaethol ar gael sy'n ymwneud ag eiriolaeth a gall roi rhyw syniad ynghylch a yw eiriolaeth yn gweithio'n dda. Gan ei fod ar gael yn genedlaethol, gellir ei ddefnyddio i edrych ar y patrymau ar draws Cymru a gallai helpu i ddechrau sgyrsiau am arferion a chanlyniadau gwahanol rhwng rhanbarthau ac awdurdodau lleol. Mae'r data hwn wedi'i restru o dan 'Adnoddau eraill'.

## Adnoddau eraill

Mae'r pecyn cymorth eiriolaeth yn cyd-fynd â'r fframwaith canlyniadau eiriolaeth. Ei nod yw cynorthwyo gwasanaethau eiriolaeth i gipio a mesur canlyniadau i ddangos y gwahaniaeth y gall eiriolaeth ei wneud.

https://www.ndti.org.uk/uploads/files/Advocacy_Outcomes_Toolkit.pdf

### Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

**Casgliad:** Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

https://gov.wales/social-services-performance-measures

**Cyhoeddiad:** Nid oes yr un o'r Mesurau Perfformiad hyn yn cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd, ac nid oes cynlluniau i'w cyhoeddi'n awr. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel eu bod ar gael i'w hadolygu'n fewnol.

Y Mesurau Perfformiad hyn a allai awgrymu bod pobl yn cael eu cefnogi gan eiriolaeth ond nad ydynt yn benodol i eiriolaeth. Os defnyddir eiriolaeth yn effeithiol, dylai'r dangosyddion hyn ddangos perfformiad da, ond mae perfformiad da yn y dangosyddion hyn yn ymwneud â mwy na dim ond eiriolaeth.

- PM7 Pobl yn nodi eu bod wedi derbyn y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd ei angen arnynt
- PM9 Pobl yn nodi eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch
- PM10 Oedolion ifanc yn nodi eu bod yn derbyn cyngor, cymorth a chefnogaeth i'w paratoi ar gyfer bod yn oedolion

- PM12 Pobl yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir am eu gofal a'u cymorth
- PM15 Gofalwyr yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth i barhau yn eu rôl ofalu

### Llywodraeth Cymru Data oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth

**Casgliad:** ffurflen canllawiau oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth

http://bit.ly/WGCandSGuidance

**Cyhoeddiad:** ystadegau ar ddarpariaeth gwasanaethau oedolion

http://bit.ly/StatsWalesAS

**Data perthnasol**
Nifer yr oedolion gyda chynllun gofal a chymorth a dderbyniodd y gwasanaethau canlynol yn ystod y flwyddyn (yn ôl grŵp oedran 18-24, 25-64, 65-74, 75-84, 85 +) sy'n derbyn gwasanaethau eiriolaeth

# Atodiad A

# Gweithredu Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth)

Offeryn Hunanasesu ar gyfer Comisiynwyr

# Cyflwyniad

## Diben

Diben yr offeryn hunanasesu hwn (“yr offeryn”) yw canfod pa mor barod yw’r sefydliad i gydymffurfio â chod ymarfer rhan 10 (eiriolaeth) a’i fwriad strategol.

Mae’r offeryn hunanasesu ei hun wedi’i strwythuro mewn pedair adran sy’n adlewyrchu gwahanol gamau’r cylch comisiynu: dadansoddi, cynllunio, darparu, adolygu[8].

Pwyntiau allweddol yr hoffem eu tanlinellu:

- Mae’r Offeryn hwn i chi ei ddefnyddio mewn ffordd ailadroddol. Gellir ei addasu a’i adolygu wrth i amser fynd heibio
- Awgrymir eich bod yn ei gwblhau mewn cydweithrediad a’ch tîm a gyda phartneriaid lle bo’n bosibl
- Nid yw’r Offeryn hwn wedi’i gynllunio i’ch holi am ffeithiau a ffigurau sy’n ymwneud â’ch proses o gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth – mae’n ymwneud ag asesu eich barn broffesiynol ar y datganiadau allweddol a gynhwysir yn yr offeryn.

## Canllaw i asesu

Mae heriau’n bodoli o ran sicrhau bod cysondeb o ran sgorio mewn ymarferion hunan asesu. Nod y ddogfen hon yw darparu strwythur a fydd yn sicrhau dull safonol o sgorio cyn belled ag y bo modd. Mae’r tabl ar y dudalen ganlynol yn disgrifio’r system asesu.

Pryd bynnag y byddwch yn gwneud asesiad yn yr Offeryn, rydych yn barnu parodrwydd eich sefydliad eich hun i gydymffurfio â chyfres o ddatganiadau arfer da ynghylch comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

I wneud hyn, bydd angen i chi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i’ch galluogi i wneud eich asesiad eich hun, er enghraifft: datganiadau polisi/ymrwymiadau corfforaethol; dogfennau strategol sy’n cefnogi’r datganiadau hyn; adroddiadau monitro sy’n darparu tystiolaeth o ddarparu gwasanaethau; contractau ar waith; tystiolaeth o fewnbwn gan randdeiliaid, ac ati. Ar ôl i chi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, byddwch yn dewis pa un o’r pedair lefel ganlynol sy’n cyfateb orau i’ch asesiad, o fewn yr ystod sydd ar gael ar gyfer y lefel honno, fel isod:

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Tystiolaeth dda i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â’r datganiad arfer da |
| **Melyn** | Digon o dystiolaeth i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â’r datganiad arfer da |
| **Ambr** | Dim digon o dystiolaeth i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â’r datganiad arfer da |
| **Coch** | Tystiolaeth wael i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â’r datganiad arfer da |

[8]Mae’n adeiladu ar waith Y Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol (SCIE) ac IPC yn Lloegr a luniodd offeryn hunanasesu tebyg ar gyfer eiriolaeth annibynnol gweler http://bit.ly/IPCAssessTool

Gellir disgrifio'r ddau uchaf o'r rhain (gwyrdd a melyn) fel rhai 'uwchben y llinell', ac mae'r ddau arall yn eistedd islaw, a thrwy hyn rydym yn golygu, os ydych yn asesu eich hunain fel ambr neu goch, ei bod yn amlwg bod llawer mwy o waith i'w wneud er mwyn cydymffurfio â'r datganiadau arfer da nag ar gyfer asesiadau yn yr ystodau melyn neu wyrdd. O fewn pob un o'r ystodau hyn, mae yna hefyd raddfa sy'n eich galluogi i asesu ble yn yr ystod honno rydych chi'n meddwl ydych chi (gweler Tabl 1). Ar gyfer pob datganiad arfer da, dylid rhoi sgôr yn un o'r blychau.

## Cyflawni'r offeryn hunanasesu

**Pwy ddylai wneud yr asesiadau?**

Chi sy'n penderfynu hyn i raddau helaeth, ond byddai trafod y datganiadau fel tîm a gyda phartneriaid lle bo'n bosibl, a dod i farn amdanynt yn ffordd dda o wneud yr asesiad.

**Tabl 1: Canllaw sgorio hunan asesu ar gyfer Comisiynwyr**

| Asesiad | Ystod y sgôr y gellir ei rhoi | Beth mae'r sgor yn ei olygu? |
|---|---|---|
| **Da**<br>Gwyrdd | Rhwng 76 a 100 | Mae gennych chi dystiolaeth **dda** i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â'r datganiad arfer da |
| **Digonol**<br>Melyn | Rhwng 51 a 75 | Mae gennych **ddigon** o dystiolaeth i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â'r datganiad arfer da |
| **Annigonol**<br>Ambr | Rhwng 26 a 50 | **Nid** oes gennych **ddigon** o dystiolaeth i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â'r datganiad arfer da |
| **Gwael**<br>Coch | Rhwng 1 a 25 | Mae gennych dystiolaeth **wael** i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â'r datganiad arfer da |

# Datganiadau arfer da ar gomisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol

| | Datganiadau Arfer Da | Eich asesiad o p'un a oes gennych dystiolaeth i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â'r datganiad arfer da | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Tystiolaeth wael** 1-25 | **Tystiolaeth annigonol** 26-50 | **Tystiolaeth ddigonol** 51-75 | **Tystiolaeth dda** 76-100 |
| **1** | **Dadansoddi** | | | | |
| 1a | Rydym yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth i ddeall y galw am eiriolaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 "y Ddeddf" | | | | |
| 1b | Mae gennym broses systematig o gynnwys pobl leol sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio, y gwasanaethau hyn, wrth gasglu a dadansoddi'r wybodaeth hon. | | | | |
| 1c | Rydym yn gwybod pa adnoddau sydd ar gael i gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth a phroffil y defnyddwyr gwasanaeth sydd fwyaf tebygol o fod angen cymorth. Gallwn roi ein hymrwymiadau ariannol yn y dyfodol ar y cynllun yn hyderus. | | | | |
| 1d | Rydym yn dadansoddi gweithgarwch a pherfformiad y ddarpariaeth eiriolaeth bresennol yn ein hardal. | | | | |

| Datganiadau Arfer Da | | Eich asesiad o p'un a oes gennych dystiolaeth i awgrymu eich bod yn cydymffurfio â'r datganiad arfer da | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Tystiolaeth wael 1-25 | Tystiolaeth annigonol 26-50 | Tystiolaeth ddigonol 51-75 | Tystiolaeth dda 76-100 |
| **2** | **Cynllunio** | | | | |
| 2a | Rydym wedi datblygu strategaeth ysgrifenedig glir a chanlyniadau cytûn ar gyfer darparu eiriolaeth yn unol â'n dyletswyddau o dan "y Ddeddf" sy'n arwydd o'n bwriadau comisiynu ar gyfer y dyfodol. | | | | |
| 2b | Rydym yn hwyluso deialog parhaus gyda rhanddeiliaid allweddol a darparwyr posibl er mwyn creu consensws ar oblygiadau ein cynlluniau yn yr ardal leol. | | | | |
| **B.1 Rydym yn ymwybodol o, ac yn deall strategaethau comisiynu a bwriadau comisiynwyr er mwyn bodloni eu dyletswyddau eiriolaeth o dan "y Ddeddf"** | Mae'r darparwr wedi manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddeall y bwriadau comisiynu | Dim ymwybyddiaeth o'r strategaeth gomisiynu | Ymwybyddiaeth gynyddol o strategaeth gomisiynu neu fwriadau | Dealltwriaeth lawn o strategaeth gomisiynu neu fwriadau | Dealltwriaeth lawn o strategaeth gomisiynu neu fwriadau a'i oblygiadau ar y gwasanaeth | *Nodwch y cyfeiriad at fesurau priodol o'r Matrics Tystiolaeth sydd ynghlwm yn Atodiad A* |
| | | | | | | |

**CYSYNIAD B: Mae strategaeth a chynlluniau clir ar gyfer deall strategaethau comisiynu a diwallu anghenion wedi'u nodi**

| **Disgrifydd Canlyniadau** | **Disgrifyddion (beth fyddech chi'n ei weld yn lle?)** | **Hunanasesu** | | | | **Mesurau (Pa dystiolaeth fyddech chi'n ei defnyddio i fesur cynnydd?)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Dod i'r amlwg** | **Aeddfedu** | **Sefydledig** | **Uwch** | |
| **B.2**<br>**Rydym yn cymryd rhan mewn deialog barhaus â rhanddeiliaid a chomisiynwyr allweddol er mwyn adeiladu consensws ar oblygiadau eu cynlluniau yn yr ardal leol** | Darparwr yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda rhanddeiliaid a chomisiynwyr am oblygiadau cynlluniau comisiynu neu fwriadau | Cyfathrebu am gynlluniau a bwriadau comisiynu'n anfynych neu ar goll | Cyfathrebu o dan adolygiad | Cynlluniau cyfathrebu parhaus ar waith | Deialog barhaus gyda rhanddeiliaid a chomisiynwyr am gynlluniau neu fwriadau comisiynu | *Nodwch y cyfeiriad at fesurau priodol o'r Matrics Tystiolaeth sydd ynghlwm yn Atodiad A* |
| | | | | | | |
| | Ymateb y darparwr i adborth gan randdeiliaid | Unrhyw adborth yn mynd heb ei gydnabod | Cydnabod derbyn unrhyw adborth | Darparwr yn esbonio sut mae'r adborth wedi cael ei ystyried | Canlyniadau adborth yn weladwy i randdeiliaid mewn newidiadau ymarferol a gwelliannau | |
| | | | | | | |

**CYSYNIAD B: Mae strategaeth a chynlluniau clir ar gyfer deall strategaethau comisiynu a diwallu anghenion wedi'u nodi**

| Disgrifydd Canlyniadau | Disgrifyddion (beth fyddech chi'n ei weld yn lle?) | Hunanasesu | | | | Mesurau (Pa dystiolaeth fyddech chi'n ei defnyddio i fesur cynnydd?) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dod i'r amlwg | Aeddfedu | Sefydledig | Uwch | |
| **B.3**<br>**Mae gennym ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n galluogi pobl leol i gyfrannu at ddyluniad gwasanaethau a sicrhau'r rheolaeth fwyaf ar wasanaethau ar ôl iddynt gael eu sefydlu** | Egwyddorion cyd-gynhyrchu yn cael eu mabwysiadu a'u hymarfer | Dealltwriaeth o gyd-gynhyrchu'n aneglur | Cyd-gynhyrchu yn cael ei ddeall ac yn cael ei ystyried wrth gomisiynu | Digwyddiadau ymgysylltu effeithiol a pholisïau, strategaethau a strwythurau cynhwysol ar waith | Ymarfer cyd-gynhyrchu yn fwy na'r safonau a nodir yn y polisïau, strategaethau a strwythurau | *Nodwch y cyfeiriad at fesurau priodol o'r Matrics Tystiolaeth sydd ynghlwm yn Atodiad A* |
| | | | | | | |
| | Deialog agored gyda rhanddeiliaid a chomisiynwyr | Adborth gan randdeiliaid ar goll neu'n anghyson | Mecanweithiau adborth yn cael eu cynllunio | Mecanweithiau adborth yn cael eu defnyddio | Mecanweithiau adborth yn cael eu hadolygu a'u gwella'n barhau | |
| | | | | | | |

## Darparu

**CYSYNIAD C: Darparu a monitro gwasanaethau eiriolaeth effeithiol**

| Disgrifydd Canlyniadau | Disgrifyddion (beth fyddech chi'n ei weld yn lle?) | Hunanasesu | | | | Mesurau (Pa dystiolaeth fyddech chi'n ei defnyddio i fesur cynnydd?) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dod i'r amlwg | Aeddfedu | Sefydledig | Uwch | |
| **C.1<br>Rydym yn deall ac yn gallu dangos sut mae ein gwasanaethau yn bodloni angen lleol ac yn cyflawni yn erbyn y cynlluniau comisiynu** | Gwasanaethau priodol yn eu lle | Nid yw addasrwydd gwasanaethau yn cael ei ystyried | Addasrwydd gwasanaethau yn cael ei ystyried | Adolygiadau rheolaidd yn nodi sut mae gwasanaethau yn bodloni angen a gweithredir ar y rhain | Adolygiadau yn nodi angen yn y dyfodol ac yn cynllunio ymlaen llaw | *Nodwch y cyfeiriad at fesurau priodol o'r Matrics Tystiolaeth sydd ynghlwm yn Atodiad A* |
| | | | | | | |

**CYSYNIAD C: Darparu a monitro gwasanaethau eiriolaeth effeithiol**

| Disgrifydd Canlyniadau | Disgrifyddion (beth fyddech chi'n ei weld yn lle?) | Hunanasesu | | | | Mesurau (Pa dystiolaeth fyddech chi'n ei defnyddio i fesur cynnydd?) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dod i'r amlwg | Aeddfedu | Sefydledig | Uwch | |
| | Gwasanaethau cynaliadwy yn eu lle | Nid yw cynaliadwyedd yn cael ei ystyried | Cynaliadwyedd yn cael ei ystyried | Cynlluniau ar waith ar gyfer cynaliadwyedd gan gynnwys newid priodol | Cynlluniau ar waith ar gyfer cynaliadwyedd gan gynnwys newid priodol ac yn cael ei gyfathrebu'n glir i'r holl randdeiliaid | |
| | | | | | | |
| | Gweithlu eiriolaeth digonol a chynaliadwy | Gallu / cynaliadwyedd y gweithlu eiriolaeth yn aneglur | Cwmpasu gallu / cynaliadwyedd y gweithlu eiriolaeth i fodloni angen | Gweithlu eiriolaeth digonol a chynaliadwy i fodloni angen lleol | Cynllunio gwell yn nodi anghenion gweithlu yn y dyfodol | |
| | | | | | | |

**CYSYNIAD C: Darparu a monitro gwasanaethau eiriolaeth effeithiol**

| Disgrifydd Canlyniadau | Disgrifyddion (beth fyddech chi'n ei weld yn lle?) | Hunanasesu | | | | Mesurau (Pa dystiolaeth fyddech chi'n ei defnyddio i fesur cynnydd?) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dod i'r amlwg | Aeddfedu | Sefydledig | Uwch | |
| **C.2 Rydym wedi datblygu gwasanaethau sy'n hyblyg, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn glir ynghylch gofynion ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.** | Gwasanaethau yn darparu ar gyfer amrywiadau mewn galw | Ni all gwasanaethau ddarparu ar gyfer amrywiadau mewn galw | Cynlluniau ar waith i wella hyblygrwydd y gwasanaeth | Gwasanaethau yn darparu ar gyfer amrywiadau mewn galw | Gwasanaethau yn gallu rhagweld a darparu ar gyfer amrywiadau mewn galw | *Nodwch y cyfeiriad at fesurau priodol o'r Matrics Tystiolaeth sydd ynghlwm yn Atodiad A* |
| | | | | | | |
| | Gwasanaethau yn canolbwyntio ar ganlyniadau | Ystyried sut i ymgorffori dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | Defnydd ysbeidiol o ddull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | Defnydd cyson o ddull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | Defnydd gwell o ddull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | |
| | | | | | | |

**CYSYNIAD C: Darparu a monitro gwasanaethau eiriolaeth effeithiol**

| Disgrifydd Canlyniadau | Disgrifyddion (beth fyddech chi'n ei weld yn lle?) | Hunanasesu | | | | Mesurau (Pa dystiolaeth fyddech chi'n ei defnyddio i fesur cynnydd?) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dod i'r amlwg | Aeddfedu | Sefydledig | Uwch | |
| **C.3 Rydym yn darparu ein gwasanaethau eiriolaeth yn erbyn safonau y cytunwyd arnynt** | Gwasanaethau yn cyd-fynd â manylebau gwasanaeth | Nid yw gwasanaethau yn cyd-fynd â manylebau gwasanaeth | Darpariaeth y gwasanaeth yn cael ei adolygu i gyd-fynd â manylebau gwasanaeth | Darpariaeth y gwasanaeth yn bodloni'r manylebau gwasanaeth | Darpariaeth y gwasanaeth yn mynd y tu hwnt i'r manylebau gwasanaeth | *Nodwch y cyfeiriad at fesurau priodol o'r Matrics Tystiolaeth sydd ynghlwm yn Atodiad A* |
| | | | | | | |
| **C.4 Rydym yn barod i dendro** | Arweinwyr gwasanaeth yn deall y broses dendro ac yn meddu ar y gallu i dendro | Ychydig neu ddim ymwybyddiaeth o'r broses dendro | Ymwybyddiaeth cynyddol o'r broses dendro ac yn gwella'r gallu i dendro | Cwbl ymwybodol o'r broses dendro ac yn meddu ar y gallu i dendro | Yn gymwys ac yn brofiadol wrth dendro | *Nodwch y cyfeiriad at fesurau priodol o'r Matrics Tystiolaeth sydd ynghlwm yn Atodiad A* |
| | | | | | | |

## Adolygu

**CYSYNIAD D: Monitro darpariaeth y gwasanaeth yn effeithiol ac adolygu'r wybodaeth a'r profiad sydd wedi'u meithrin sy'n sail i'r cylch comisiynu nesaf**

| Disgrifydd Canlyniadau | Disgrifyddion (beth fyddech chi'n ei weld yn lle?) | Hunanasesu | | | | Mesurau (Pa dystiolaeth fyddech chi'n ei defnyddio i fesur cynnydd?) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dod i'r amlwg | Aeddfedu | Sefydledig | Uwch | |
| **D.1 Rydym yn dwyn ynghyd ddata perthnasol ar weithgarwch a chanlyniadau ein gwasanaethau er mwyn barnu a ydynt yn darparu gwerth am arian ac effaith** | Set data sy'n seiliedig ar ofynion deddfwriaeth | Ystyried cynnwys y set data | Datblygu / profi set data newydd | Set Data yn adlewyrchu gofynion cyfreithiol | Set Data yn fwy na'r gofynion cyfreithiol | *Nodwch y cyfeiriad at fesurau priodol o'r Matrics Tystiolaeth sydd ynghlwm yn Atodiad A* |
| | | | | | | |
| | System casglu data | Cwmpasu / sefydlu system casglu data | Treialu / mireinio system casglu data | Defnyddio system casglu data wedi'i datblygu'n dda | Gwella'r system casglu data yn barhaus | |
| | | | | | | |

**CYSYNIAD D: Monitro darpariaeth y gwasanaeth yn effeithiol ac adolygu'r wybodaeth a'r profiad sydd wedi'u meithrin sy'n sail i'r cylch comisiynu nesaf**

| Disgrifydd Canlyniadau | Disgrifyddion (beth fyddech chi'n ei weld yn lle?) | Hunanasesu | | | | Mesurau (Pa dystiolaeth fyddech chi'n ei defnyddio i fesur cynnydd?) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dod i'r amlwg | Aeddfedu | Sefydledig | Uwch | |
| | Ansawdd data cadarn | Archwilio safonau ansawdd ar gyfer data ystyrlon, amserol, cyfredol | Ansawdd data'n cael ei godi i fodloni safonau | Data a gasglwyd yn bodloni safonau ansawdd | Data a gasglwyd yn rhagori ar y safonau ansawdd | |
| | | | | | | |
| | Cyflwyniadau data cyson i gomisiynwyr | Trafod cysondeb gyda chomisiynwyr | Cynlluniau ar waith gyda chomisiynwyr i wella cysondeb | Cyflwyniadau data cyson yn cael eu hanfon | Cyflwyniadau data uwch | |
| | | | | | | |

**CYSYNIAD D: Monitro darpariaeth y gwasanaeth yn effeithiol ac adolygu'r wybodaeth a'r profiad sydd wedi'u meithrin sy'n sail i'r cylch comisiynu nesaf**

| Disgrifydd Canlyniadau | Disgrifyddion (beth fyddech chi'n ei weld yn lle?) | Hunanasesu | | | | Mesurau (Pa dystiolaeth fyddech chi'n ei defnyddio i fesur cynnydd?) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Dod i'r amlwg** | **Aeddfedu** | **Sefydledig** | **Uwch** | |
| | Adroddiadau data defnyddiol a chynhwysfawr | Adroddiadau heb gael eu cynhyrchu / ddim yn ddefnyddiol / heb gael eu hystyried | Adolygu cynnwys ac effeithiolrwydd adroddiadau | Defnyddio adroddiadau sy'n gynhwysfawr a defnyddiol | Gwella ansawdd ac effeithiolrwydd adroddiadau data yn barhaus | |
| | | | | | | |
| **D.2 Rydym yn darparu i gomisiynwyr astudiaethau achos enghreifftiol sy'n dangos effaith ein gwasanaeth, er mwyn helpu i lywio comisiynu yn y dyfodol** | Astudiaethau achos enghreifftiol ar waith | Mae astudiaethau achos o ansawdd gwael neu nid ydynt yn bodoli | Astudiaethau achos yn cael eu datblygu neu angen eu diweddaru / gwella | Astudiaethau achos enghreifftiol yn cael eu cadw'n gyfredol drwy'r amser | Defnydd uwch o astudiaethau achos arloesol, enghreifftiol i wella dealltwriaeth o effaith y gwasanaeth | *Nodwch y cyfeiriad at fesurau priodol o'r Matrics Tystiolaeth sydd ynghlwm yn Atodiad A* |
| | | | | | | |

**CYSYNIAD D: Monitro darpariaeth y gwasanaeth yn effeithiol ac adolygu'r wybodaeth a'r profiad sydd wedi'u meithrin sy'n sail i'r cylch comisiynu nesaf**

| Disgrifydd Canlyniadau | Disgrifyddion (beth fyddech chi'n ei weld yn lle?) | Hunanasesu | | | | Mesurau (Pa dystiolaeth fyddech chi'n ei defnyddio i fesur cynnydd?) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dod i'r amlwg | Aeddfedu | Sefydledig | Uwch | |
| **D.3 Mae gennym brosesau monitro yn eu lle sy'n canolbwyntio ar ddatblygu deialog cadarnhaol a chydweithredol gyda chomisiynwyr neu gyllidwyr i wella perfformiad** | System i ddal materion gwasanaeth ehangach | Nid oes system ar waith i gasglu a gwerthuso materion gwasanaeth ehangach | Treialu system i gasglu a gwerthuso materion gwasanaeth ehangach | System sefydledig ar waith i gasglu a gwerthuso materion gwasanaeth ehangach | System uwch ar waith i gasglu a gwerthuso materion gwasanaeth ehangach | *Nodwch y cyfeiriad at fesurau priodol o'r Matrics Tystiolaeth sydd ynghlwm yn Atodiad A* |
| | | | | | | |
| | Proses monitro wedi'i gyd-gynhyrchu gyda chyllidwyr | Nid yw darparwyr yn ymwneud â datblygu'r broses monitro eto | Proses monitro a gyd-gynhyrchwyd yn cael ei dreialu | Yn defnyddio proses monitro a gyd-gynhyrchwyd | Proses monitro gadarn, wedi'i phrofi, a gyd-gynhyrchwyd ar waith ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd | |
| | | | | | | |

# Mesurau i ddangos cynnydd

| Dogfennau | Adborth | Staffio | Systemau |
|---|---|---|---|

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Ffurflenni ystadegol | B | Astudiaethau achos | C | Adborth rhanddeiliaid am wasanaethau | D | Ffurflen adborth hawdd ei darllen / darluniadol | E | Cofnodion hyfforddiant staff | F | Grwpiau defnyddwyr |
| G | Astudiaethau data cymharol | H | Taenlenni a sylwebaeth am gyllideb | I | Adborth rhanddeiliaid am angen nad yw'n cael ei ddiwallu | J | Adborth rhanddeiliaid am faterion heb eu datrys | K | Polisi hyrwyddo ac amcanion perfformiad | L | Pwyllgorau |
| M | Cyfrifon rheoli | N | Rhagolwg ariannol | O | Adborth rhanddeiliaid ynglŷn â llwytho achosion | P | Sianel adborth fideo | Q | Dogfennau TUPE | R | Strwythurau llywodraethu |
| S | Achos busnes | T | Dadansoddiad cost a budd | U | Adborth defnyddwyr gwasanaeth | V | Adborth gofalwyr | W | Cofnodion goruchwylio | X | Systemau TG |
| Y | Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN) | Z | Manyleb gwasanaeth | AA | Cyfarfodydd adolygu contract | BB | Dyfyniad gan ddefnyddwyr gwasanaeth a ddefnyddir mewn dogfennau | CC | | DD | Trosolwg o eiriolaeth sy'n treiddio i'r holl bolisïau a strategaethau sefydliadol |

| **Dogfennau** | **Adborth** | **Staffio** | **Systemau** |
|---|---|---|---|

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EE | Contract gwasanaeth | FF | Cofnodion cyfarfodydd | GG | Adborth darparwyr | HH | Adborth gwirfoddolwyr | II | | JJ | Ysgol cyd-gynhyrchu |
| KK | Polisi / strategaeth sefydliadol ehangach | LL | Llenyddiaeth hyrwyddo eiriolaeth | MM | Pwysigrwydd Eiriolaeth (arolwg darparwr Age Cymru) | NN | Adborth comisiynydd | OO | | PP | Ymgyrch gwybodaeth / cyhoeddusrwydd |
| QQ | Ymatebion i PIN | RR | Adroddiad asesu 360 gradd darparwr | SS | Siart o'r cyfrifon | TT | Cytundeb lefel gwasanaeth | UU | | VV | Cronfa ddata darparwr DEWIS |
| WW | Asesiad o'r Boblogaeth | XX | Cynllun gweithredu contract | YY | Adroddiad blynyddol y gwasanaeth | ZZ | Cynllun pontio gwasanaeth | a | | b | cronfa ddata darparwr |
| c | Adroddiad diwydrwydd dyladwy ar gynllun gweithredu contract | d | Adroddiad monitro cartrefi gofal | e | Cynllun comisiynu eiriolaeth | f | Dadansoddiad SWOT | g | | h | Mecanweithiau rhannu gwybodaeth rhanbarthol / cenedlaetho |

| Dogfennau | Adborth | Staffio | Systemau |
|---|---|---|---|

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| i | Canlyniadau lefel gwasanaeth | j | Dangosyddion perfformiad allweddol | k | Ffurflenni data gweithgaredd | l | Cynllun gweithredu contract | m | Adroddiad diwydrwydd dyladwy ar y cynllun pontio gwasanaethau | n | Amserlen cyfarfodydd monitro |
| o | Cymal terfynu mewn contract | p | Map asedau | q | Strategaeth eiriolaeth | r | Cymal terfynu contract | s | Papur cyfarfod | t | Rhestr o ddigwyddiadau ymgysylltu |
| u | Dogfen ymgynghori | v | Ymatebion i’r ymgynghoriad | w | Strategaeth Llais a Rheoli | x | Dadansoddiad rhanddeiliaid | y | Holiadur | z | Mecanwaith cymorth ar gyfer adborth diduedd i bobl ag anableddau cymhleth |
| aa | Dadansoddi o ganlyniadau’r ymgynghoriad | bb | Llythyrau adborth i randdeiliaid | cc | Dadansoddiad PEST | dd | Adroddiad gwerth am arian | ee | Canlyniadau lefel unigol generig | ff | Sianelau cyfathrebu parhaus gyda thimau gweithredol |

# Atodiad D

# Adroddiad Eiriolaeth Gwent

Hydref 2017, golygwyd a diweddarwyd yn Hydref 2018

# Cefndir

## Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (PNA) Adroddiad Rhanbarth Gwent

Mae'r PNA yn cynnwys adran ar eiriolaeth ac yn nodi y bydd y cynllun ardal ar y cyd yn "dod â phartneriaid trydydd sector a thimau comisiynu at ei gilydd i fapio gwasanaethau eiriolaeth yn llawn a nodi arfer da a bylchau mewn darpariaeth. Byddwn hefyd yn hyrwyddo darpariaeth eiriolaeth annibynnol ac yn gweithio'n agos gyda sefydliadau ymbarél y trydydd sector i nodi atebion."

Bydd y **Cynllun Ardal ar y Cyd** yn cyflwyno:

- Aliniad o ddarpariaeth eiriolaeth i flaenoriaethau a nodwyd ar draws asiantaethau partner.
- Gweithio gyda'r Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd ar draws y rhanbarth trwy fforwm darparwyr rhanbarthol.
- Dull ar y cyd o ran darparu eiriolaeth gyda phartneriaid yn y trydydd sector yn enwedig wrth hyrwyddo eiriolaeth annibynnol.

Bydd y Cynllun Ardal ar y Cyd hefyd yn "Cefnogi gwaith cyd-gomisiynu Gwasanaethau Plant ar gyfer un gwasanaeth eiriolaeth."

## Partneriaeth Gofalwyr

Mae gofalwyr sydd angen cymorth yn cael eu nodi fel un o'r themâu craidd yn y PNA. Mae'r rhaglen waith Partneriaeth Gofalwyr ar gyfer 2017/18 yn targedu cymorth eiriolaeth ac mae'r 'Datganiad ar y cyd o Fwriad Strategol - Gofalwyr' yn nodi eiriolaeth fel blaenoriaeth, gyda datblygu a darparu gwasanaeth eiriolaeth cyson, cynaliadwy i ofalwyr yn gam gweithredu allweddol.

Mae'r *Adroddiad ar Brosiect Gofalwyr Gwent (2): Barn a Phrofiadau Gofalwyr* gan Dr. Carolyn Wallace o Brifysgol De Cymru yn cynnwys "disgrifiad o wasanaeth eiriolaeth yn y dyfodol sy'n cynnwys mynediad at wybodaeth trwy adnoddau lluosog, gwasanaethau eiriolaeth arbenigol a ddarperir gan y trydydd sector wedi'i ategu gan rwydwaith o wirfoddolwyr."

## Bwrdd Diogelu Oedolyn Gwent Gyfan (GWASB)

Yn dilyn Ymgyrch Jasmine, mae Cynllun Strategol GWASB ar gyfer 2017-20 yn cynnwys "codi safon a'r defnydd o wasanaethau eiriolaeth ar draws y rhanbarth" fel ffocws blaenoriaeth ar gyfer blwyddyn 1. Mae'r cynllun yn cynnwys pedwar cam penodol ar eiriolaeth

- Sefydlu meincnod o lefel bresennol y defnydd o eiriolaeth
- Cynhyrchu ystod o offer i godi ymwybyddiaeth o eiriolaeth
- Adolygu'r nifer wnaeth fanteisio ar eiriolaeth ar draws y rhanbarth yn ystod y flwyddyn flaenorol i sefydlu p'un a yw nifer y bobl sy'n defnyddio eiriolaeth wedi cynyddu
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol o'r hawl gan unigolion i bob math o eiriolaeth.

## Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

Mae Rhan 13 yn amlinellu rôl y gwasanaethau eirioli annibynnol mewn perthynas â chwynion, a ddarperir fel arfer gan Gynghorau Iechyd Cymuned ac mae'n wahanol i'r Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol fel y'i diffinnir yng Nghod Ymarfer Rhan 10. Fodd bynnag, gall cleifion mewn lleoliadau iechyd fod yn gymwys i Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol mewn rhai amgylchiadau, gan gynnwys diogelu, pan fyddant mewn gofal preswyl a chartrefi nyrsio a phan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gontract cyfredol ar waith ar draws Gwent i ddarparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i bobl â phroblemau iechyd meddwl.

## Adolygiad y Trydydd Sector o Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent Ehangach

Roedd yr adolygiad yn cynnwys dysgu cynnar o gontractau Cyngor Sir Casnewydd ac ABUHB ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Yn dilyn yr adolygiad, cymeradwyodd Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gwent gam gweithredu i:

- Symud ymlaen ag adolygiad o wasanaethau eiriolaeth gan ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd o'r contract - dysgu o dendrau diweddar ac i gyflwyno cynigion ar gyfer dull cyson o ddarpariaeth eiriolaeth ar gyfer gwasanaethau oedolion ar draws y rhanbarth.

Fe wnaeth y Penaethiaid Gwasanaeth hefyd ofyn am ymarfer opsiynau eiriolaeth comisiynu ar draws y rhanbarth.

## Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (GTAP)

Mae'r GTAP yn adnodd rhad ac am ddim ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd, a ariennir gan Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Bydd yn rhoi cymorth annibynnol i gomisiynu eiriolaeth hyd at fis Mawrth 2019, pan y bydd yn cyhoeddi'r drafft terfynol o Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Comisiynu Proffesiynol Annibynnol ar gyfer Oedolion yng Nghymru. Mae GTAP yn cael ei arwain gan Age Cymru mewn partneriaeth ag Age Connects a Diverse Cymru. Mae'r prosiect yn cwmpasu pob grŵp defnyddwyr gwasanaeth 18+ mlwydd oed. Mae Age Cymru yn endid ar wahân i'w bartneriaid brand lleol ac nid yw'n darparu eiriolaeth ei hun ond mae'n hwyluso fforwm darparwr eiriolaeth cenedlaethol.

# Opsiynau i'w Hystyried

Mae gan ddau awdurdod lleol (Cyngor Sir Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) eisoes drefniadau comisiynu ar gyfer IPA yn eu lle, sy'n dod i ben yn 2019 (gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd). Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gontract ar wahân ar waith am Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, yn seiliedig ar fanyleb gwasanaeth tebyg.

Mae'r opsiynau ar gyfer symud comisiynu eirioli yn ei flaen ar draws Gwent yn cynnwys y canlynol:

**Opsiwn 1 - Awdurdodau lleol yn parhau i gomisiynu'n annibynnol ar ei gilydd**

Gallai pob awdurdod lleol barhau i gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth yn annibynnol ar ei gilydd, neu gallai un neu fwy ymuno â chontract fframwaith Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol Casnewydd.

**Opsiwn 2 - Comisiynu is-ranbarthol ar y cyd**

Gallai dau neu fwy o'r tri awdurdod lleol y tu allan i'r fframwaith Casnewydd gyd-gomisiynu trefniant arall sydd wedi'i deilwra i fodloni anghenion penodol eu poblogaethau.

**Opsiwn 3 - Comisiynu cydweithredol rhanbarthol (Opsiwn a Ffafrir)**

Gallai'r pum awdurdod lleol gytuno i weithio tuag at ddatblygu ymagwedd ranbarthol tuag at gomisiynu eiriolaeth o fewn amserlen sy'n gysylltiedig â diwedd y contractau presennol.

**Opsiwn 4 - Comisiynu integredig rhanbarthol**

Gallai'r pum awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan weithio tuag at un cynllun comisiynu integredig ar gyfer Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Gwent.

# Asesiad o'r Effaith Yn Erbyn Cynigion / Opsiynau



## Meddwl am y tymor hir

**Pwysigrwydd cydbwyso'r anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd i fodloni angen yn y tymor hir**

Mae'r data contract a gasglwyd yn rhoi darlun o'r lefelau presennol o ddarpariaeth eiriolaeth. Mae'n anodd rhagweld sut y bydd lefel y galw yn cynyddu pan fydd ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth gyhoeddus cenedlaethol yn dechrau yn 2018.

Mae'n ymddangos mai opsiynau 3 a 4 sy'n cynnig y dulliau mwyaf blaengar i ddatblygu comisiynu eiriolaeth ar draws y rhanbarth. Mae'r ddau opsiwn hyn yn cynrychioli datblygiad ar arferion comisiynu cyfredol yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, ac yn adlewyrchu datblygiadau rhanbarthol o fewn Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc. Fodd bynnag, yn ysbryd cyd-gynhyrchu, dylid ceisio barn ehangach gan randdeiliaid i lywio'r penderfyniad terfynol, gan gynnwys trafodaeth gyda ABUHB.

## Defnyddio dull integredig

**Ystyried sut y gall amcanion lles y Cyngor effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill**

Er mwyn galluogi datblygu dull ar draws Gwent i gomisiynu eiriolaeth, mae timau comisiynu wedi dangos cefnogaeth i sefydlu Grŵp Comisiynwyr Eiriolaeth Rhanbarthol Gwent. Byddai hyn yn adeiladu ar y gwaith cydweithredol a ddechreuwyd yn y gweithdy a arweinir gan GTAP ym mis Gorffennaf 2017. Byddai'n darparu cyfleoedd i rannu arfer da a chefnogi datblygiad o ddiwylliant o welliant, gan gynnwys drwy weithio gyda "matrics aeddfedrwydd comisiynu" GTAP/WIHSC.

## Defnyddio dull ataliol

**Sut y gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu'r Cyngor i fodloni ei amcanion**

Heb unrhyw arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae'n hanfodol i fanteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd drwy gomisiynu eiriolaeth. Efallai y bydd angen hefyd ystyried cynyddu'r gyllideb bresennol yn y dyfodol i fodloni'r galw cynyddol am Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ac i gefnogi darpariaeth eiriolaeth yn ac atal yn ehangach.

## Cydweithio

**Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu rannau eraill o'r Cyngor ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles**

Mae gwaith i hyrwyddo ymagwedd ranbarthol at gomisiynu eiriolaeth wedi dechrau, gyda chefnogaeth GTAP. Mae timau comisiynu wedi hunanasesu parodrwydd ar gyfer bodloni gofynion eiriolaeth newydd ac wedi mynegi parodrwydd i archwilio cyd-gymorth i ddatblygu eu cryfderau ymhellach. Mae tîm Comisiynu Blaenau Gwent yn barod i barhau i drefnu cyfarfodydd i ddechrau, gyda chyfrifoldeb i gael ei rannu gydag awdurdodau partner yn y tymor hwy.

## Ymglymiad

**Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y Cyngor**

Ochr yn ochr â datblygu Grŵp Comisiynwyr Eiriolaeth Rhanbarthol Gwent, cynigir y dylai Fforwm Darparwyr Eiriolaeth Gwent gael ei sefydlu. Byddai hyn yn adeiladu ar waith diweddar a gychwynnwyd gan TVA i ffurfio Fforwm Darparwyr Eiriolaeth lleol. Efallai y bydd hefyd yn galluogi datblygu dulliau cydweithredol/consortiwm. Mae GAVO a TVA ill dau wedi nodi eu bod yn cytuno mewn egwyddor i gefnogi datblygu fforwm Gwent gyfan ar gyfer darparwyr eiriolaeth.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA)

Mae EQIA yn cael ei gwblhau pan fydd polisi neu arfer yn cael eu cynnig neu yn cael eu hadolygu, ac mae'n edrych am dystiolaeth o effaith gadarnhaol neu negyddol yn erbyn pobl neu grwpiau o'r naw nodwedd warchodedig. Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried yr iaith Gymraeg yn y Broses Asesu Effaith, i gynorthwyo gyda bodloni gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg 2015. Mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ar bolisïau, gweithdrefnau, swyddogaethau, darpariaeth gwasanaethau a chynigion arbedion ariannol.


Cafodd adroddiad cychwynnol ei gyflwyno i Benaethiaid Gwasanaeth Gwent ar ddiwedd mis Hydref gan y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Comisiynu ym Mlaenau Gwent. Cafodd yr argymhelliad y dylai'r opsiynau a amlinellir yn adran 3 uchod gael eu cyflwyno i weithdy aml-randdeiliaid arfaethedig yn gynnar yn 2018 (gweler 4.1), a fyddai hefyd yn cynnwys trafod model darparu gwasanaeth eiriolaeth a ffafrir, ei gymeradwyo. Yna bydd adroddiad pellach yn seiliedig ar y trafodaethau hyn ac yn cynnwys profforma gwerthuso opsiynau cwblhau ac Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth am benderfyniad.

# Casgliadau

Mae’r Fforwm Cyd-gynhyrchu Eiriolaeth yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o’r grwpiau Dinasyddion, Darparwyr a Chomisiynwyr. Roedd ganddo rôl allweddol wrth wneud penderfyniadau wrth gyd-gynhyrchu strategaeth comisiynu eiriolaeth oedolion Gwent, yn dwyn y teitl ‘Ein Gweledigaeth a’n Bwriadau ar gyfer Eiriolaeth Oedolion, 2019-24’. Dilynwch y ddolen isod i weld y strategaeth:


http://bit.ly/GwentAdultAdvocacy

## Strwythur Ymgysylltu Gwent




eiriolaeth advocacy
Y Rhaglen Edau Euraidd
The Golden Thread Programme
Galluogi barn, dymuniadau a theimladau
Enabling views, wishes and feelings

# Atodiad E
# Sbectrwm gwasanaethau eiriolaeth



# Atodiad F
# Crynodeb o Ddulliau ar gyfer Eiriolaeth Heb Gyfarwyddyd

Mae'r pedwar dull a gydnabyddir ar hyn o bryd o ran eiriolaeth heb gyfarwyddyd wedi'u nodi yn fyr isod. Cydnabyddir bod dull integredig yn fwyaf effeithiol wrth ddarparu eiriolaeth heb gyfarwyddyd.

## Dull sy'n seiliedig ar Hawliau

Gyda'r dull hwn, rôl yr eiriolwr yw sicrhau, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, bod hawliau dynol sylfaenol defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hyrwyddo, eu hamddiffyn a, lle bo angen eu defnyddio i gymryd camau cadarnhaol ar ran y defnyddiwr gwasanaeth. Lle mae'r eiriolwr yn credu bod yr anghyfiawnder sy'n cael ei wneud i'r defnyddiwr gwasanaeth yn anghyfreithlon, dylent geisio cynrychiolaeth gyfreithiol briodol ar gyfer y person.

## Dull sy'n canolbwyntio ar yr Unigolyn

Wrth dreulio amser gyda'r defnyddiwr gwasanaeth, ac efallai eraill mae'r cleient yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt, mae'r eiriolwr yn adeiladu darlun o'u ffordd o fyw, eu dewisiadau a'u hanghenion. Gall yr eiriolwr gynrychioli barn y person annibynnol 'fel pe baent yn farn i'r eiriolwr ei hun' (O'Brien 1981). Wrth wneud hynny, mae'r eiriolwr yn codi proffil persbectifau unigryw'r defnyddiwr gwasanaeth, ac yn hynny o beth mae'n hyrwyddo dull o ddarparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

## Y Dull Briff Gwylio

Mae'r dull hwn yn cynnwys tua 8 parth ansawdd bywyd a ddefnyddir fel sail i gyfres o gwestiynau y gall yr eiriolwr eu cyflwyno i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau neu i'r darparwr gwasanaethau ar ran y defnyddiwr gwasanaeth. Mae'r Brîff Gwylio yn darparu fframwaith ar gyfer holi a herio'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau neu'r darparwr gwasanaethau mewn ffordd nad yw'n gwrthdaro, ac mae'n annog darparwyr gwasanaethau i sicrhau bod y defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau. Gan ddefnyddio'r model Brîff Gwylio mae'n rhaid i eiriolwyr sicrhau bod nifer o faterion yn glir: Cafodd y model Brîff Gwylio ei ddatblygu, ac mae wedi'i ddefnyddio'n helaeth gan wasanaethau eiriolaeth ASIST yn Swydd Stafford.

## Dull Tyst-Arsylwi

Mae'r eiriolwr, wrth sylwi ar y modd y mae cleient yn byw eu bywyd efallai yn gweld neu'n clywed pethau sy'n annerbyniol neu sy'n fygythiad i'r les y person. Gallant hefyd sylwi ar ddewisiadau a phleserau y defnyddiwr gwasanaeth, a gall hynny yn ei dro gael ei ddefnyddio i wella perthnasau cadarnhaol. Nid yw'r dull hwn yn gofyn i'r eiriolwr ffurfio barn neu ragdybiaethau, dim ond i adrodd ar y ffeithiau o'i sylwadau a dod â nhw i sylw darparwyr gwasanaeth a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau.

# Atodiad G

**eiriolaeth**
Y Rhaglen Edau Euraidd
Galluogi barn, dymuniadau a theimladau

## *Y broses gwneud penderfyniadau wrth bennu angen am eiriolaeth broffesiynol annibynnol i Oedolion*

*o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar

### Yr unigolyn a'i amgylchiadau

A yw'r unigolyn yn oedolyn sydd ag, neu yn ymddangos fel bod ganddo, anghenion gofal a chymorth

**Neu**

A yw'r unigolyn yn ofalwr sydd ag, neu yn ymddangos fel bod ganddo, anghenion gofal a chymorth

**Ac,** a yw'r unigolyn yn cael

- asesiad
- cynllunio gofal a chymorth
- adolygiad
- ymholiad neu adolygiad diogelwch?

**Ac** a oes gan yr unigolyn unrhyw rwystrau rhag:

- cyfranogi yn llawn
- cael eraill i wrando ar ei lais
- i benderfynu a diogelu ei ganlyniadau llesiant?

**NAC YDI** → Nid oes unrhyw ofyniad i awdurdodai lleol na byrddau iechyd i drefnu darpariaeth EBA o dan y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant, ond dylid ystyried ffurfiau eraill o gymorth ac eiriolaeth.

**YDI** → A yw'n bosib goresgyn y rhwystrau hyn drwy addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

- **YDI** → Gwnewch addasiadau rhesymol.
- **NAC YDI** → A yw'r unigolyn yn gymwys ar gyfer Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA)?
  - **YDI** → Cyfeiriwch at Wasanaeth IMCA.
  - **NAC YDI** → Mewn partneriaeth gyda'r unigolyn, penderfynwch pa ffurf o eiriolaeth yw'r mwyaf priodol, gan gynnwys unigolyn addas, eiriolaeth ffurfiol etc. A oes yna unigolyn addas neu eiriolaeth briodol ar gael?
    - **YDI** → Cadarnhewch y trefniadau gyda'r unigolyn addas, neu cyfeiriwch yr unigolyn at wasanaethau eiriolaeth addas. Ystyriwch a oes angen EBA yn ogystal.
    - **NAC YDI** → Cyfeiriwch at wasanaeth EBA.

# Atodiad H

## Canlyniadau Model Arfaethedig ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014

O ganlyniad i gefnogaeth a dderbyniwyd gan y gwasanaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol statudol, mae **cleientiaid eiriolaeth:**

**1. Yn fwy gwybodus am, ac yn deall yn well yr opsiynau gofal a chymorth sydd ar gael iddynt fel y gallant wneud dewisiadau a phenderfyniadau gwybodus am eu trefniadau personol.**

- Yr wyf yn gwybod ac yn deall pa ofal, cefnogaeth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn defnyddio'r rhain i fy helpu i gyflawni fy lles.
- Gallaf gael gafael ar y wybodaeth gywir, pan fo'i angen arnaf, yn y ffordd yr wyf am wneud hynny a defnyddio hyn i reoli a gwella fy lles.
- Rwy'n cael y gofal a'r gefnogaeth gywir, cyn gynted ag y bo modd.
- Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy nghefnogi orau i gyflawni fy lles

**2. Yn gallu nodi eu canlyniadau lles personol yn well, y rhwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain.**

- Mae fy amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried.
- Rwy'n cael y gofal a'r gefnogaeth gywir, cyn gynted ag y bo modd.
- Gallaf ddysgu a datblygu i fy llawn botensial.
- Rwyf yn gwneud y pethau sy'n bwysig i mi.
- Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy nghefnogi orau i gyflawni fy lles

**3. Yn gallu cymryd rhan lawnach mewn prosesau gwasanaethau cymdeithasol ac mae ganddynt fwy o reolaeth dros ac yn eu cynllun gofal a chymorth.**

- Rwyf yn siarad drosof fi fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd, neu mae gen i rhywun a all wneud hynny i mi.
- Mae fy llais yn cael ei glywed ac mae pobl yn gwrando arno.
- Rwy'n cael y gofal a'r gefnogaeth gywir, cyn gynted ag y bo modd.
- Rwyf yn gwneud y pethau sy'n bwysig i mi.
- Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy nghefnogi orau i gyflawni fy lles

**4. Yn gallu cyfleu yn well, ac wedi gweithredu ar, eu safbwyntiau, dymuniadau a theimladau i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ac eraill sy'n ymwneud â'u gofal a chymorth.**

- Mae fy llais yn cael ei glywed ac mae pobl yn gwrando arno.
- Mae fy amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried.
- Rwyf yn siarad drosof fi fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd, neu mae gen i rhywun a all wneud hynny i mi.

- Rwy'n cael y gofal a'r gefnogaeth gywir, cyn gynted ag y bo modd.
- Rwyf yn gwneud y pethau sy'n bwysig i mi.
- Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy nghefnogi orau i gyflawni fy lles

**5. Yn gallu herio ac, yn ôl yr angen, gwneud cwynion am y prosesau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, neu gael ei gynrychioli i wneud hynny yn well.**

- Rwyf yn siarad drosof fi fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd, neu mae gen i rhywun a all wneud hynny i mi.
- Rwy'n cael y gofal a'r gefnogaeth gywir, cyn gynted ag y bo modd.
- Rwyf yn gwneud y pethau sy'n bwysig i mi.
- Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy nghefnogi orau i gyflawni fy lles

**6. Yn meddu ar well dealltwriaeth o'u hawliau a sut i'w cynnal nhw.**

- Rwyf yn siarad drosof fi fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd, neu mae gen i rhywun a all wneud hynny i mi.
- Rwy'n cael y gofal a'r gefnogaeth gywir, cyn gynted ag y bo modd.
- Gallaf ddysgu a datblygu i fy llawn botensial.
- Rwyf yn gwneud y pethau sy'n bwysig i mi.
- Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy nghefnogi orau i gyflawni fy lles

**7. Yn teimlo'n fwy gwybodus, yn ddiogel ac yn gallu amddiffyn eu hunain yn well pan fo pryderon diogelu.**

- Rwyf yn ddiogel ac yn cael fy ngwarchod rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
- Rwyf yn gwybod sut i wneud fy mhryderon hysbys.

**8. Yn teimlo eu bod yn cael eu trin gyda mwy o urddas a pharch.**

- Rwyf yn cael fy nhrin ag urddas a pharch ac yn trin eraill yr un fath.
- Rwyf yn perthyn.

**9. Yn gallu cael gafael ar wybodaeth yn y fformatau maen nhw'n eu ffafrio ac yn gallu cyfathrebu yn yr iaith o'u dewis.**

- Gallaf gael gafael ar y wybodaeth gywir, pan fo'i angen arnaf, yn y ffordd yr wyf am wneud hynny a defnyddio hyn i reoli a gwella fy lles.
- Rwy'n cael gofal a'r cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os wyf eisiau.

**10. Yn teimlo'n fwy grymus a hyderus yn eu rhyngweithio gyda gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol.**

- Mae fy llais yn cael ei glywed ac mae pobl yn gwrando arno
- Mae fy amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried
- Rwyf yn siarad drosof fi fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd, neu mae gen i rhywun a all wneud hynny i mi

**Bydd darparwyr gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol statudol yn ceisio gwneud y mwyaf o'r canlyniadau canlynol:**

1. Mynediad at a defnydd o'r gwasanaeth gan ystod fwy amrywiol o gleientiaid.
2. Boddhad cleientiaid ag ansawdd y gefnogaeth a dderbyniwyd gan y gwasanaeth.
3. Dysgu parhaus o sylwadau, awgrymiadau a chwynion.
4. Cyfleoedd i gleientiaid gymryd rhan mewn llywodraethu a gwneud penderfyniadau am y gwasanaeth, ac wrth gyd-gynhyrchu datblygiadau gwasanaeth.

Age Cymru, Llawr Gwaelod, Mariners House,
Trident Court, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD

Ffôn: 029 2043 1555

E-bost: enquiries@agecymru.org.uk

**www.agecymru.org.uk/advocacy**

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436, cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Gweler uchod am ein swyddfa gofrestredig.
©Age Cymru 2019

**Dilynwch ni ar:**

facebook.com/agecymru

twitter.com/agecymru